SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## SSCE Cymru

# Canllaw i Deuluoedd Gwasanaeth y Lluoedd Arfog



## 1: Profiadau plant y Lluoedd Arfog


Cyflwyniad 4
Diffiniad o Blant Milwr 4
Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog 5
Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog 6
Effaith adleoli a gwahanu 7
Effaith Symud 10
Effaith pontio 12
Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog 13


## 2: Y Lluoedd Arfog yng Nghymru


Cyflwyniad 17
Y Lluoedd Arfog yng Nghymru 17
Gwasanaethau Lles 21
Cyfamod y Lluoedd Arfog 23


## 3: Byw yng Nghymru


Cyflwyniad 26
Ynglŷn â Chymru 26
Diwylliant Cymru 28
Y Gymraeg 29
Y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc 29


## 4: Addysg yng Nghymru


Cyflwyniad 33
Addysg 33
Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022) 37
Arholiadau ac asesiadau 40
Yr iaith Gymraeg 41
Cymharu Addysg 44
Darpariaeth addysg arall 48
Blynyddoedd cynnar/gofal plant 49
Addysg ôl-16 50


## 5: Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor


Cyflwyniad 53
Derbyniadau Ysgol 53
Symud ysgol 56
Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor 58


## 6: Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol


Cyflwyniad 61
Iechyd meddwl a lles 61
Anghenion Dysgu Ychwanegol 64


## 7: Cefnogaeth ysgol


Cyflwyniad 69
SSCE Cymru 69
Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog 73
Cyllid 75






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Profiadau plant y Lluoedd Arfog



# Cynnwys


**Profiadau plant y Lluoedd Arfog**

Cyflwyniad 4
Diffiniad o Blant Milwr 4
Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog 5
Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog 6
Effaith adleoli a gwahanu 7
Effaith Symud 10
Effaith pontio 12
Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog 13


# Cyflwyniad

Mae adran profiadau plant y Lluoedd Arfog o Ganllaw Teulu Lluoedd Arfog SSCE Cymru yn cynnwys trosolwg o ddealltwriaeth profiadau plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'n rhoi crynodeb i deuluoedd y Lluoedd Arfog o'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniadau yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth, adnoddau a chyngor i helpu plant y Lluoedd Arfog mewn addysg.

# Diffiniad o Blant Milwr

Dylai lleoliadau ysgolion ac addysg ystyried nodi a chefnogi holl blant sydd â chysylltiad â'r Lluoedd Arfog drwy gael mynediad a defnyddio'r llawer o adnoddau sydd ar gael yn **SSCE Cymru** a drwy'r **Rhwydwaith SSCE Cymru**.

## Diffiniad Llywodraeth Cymru o blentyn Milwr

Mae gan 'blentyn milwr' riant (rhieni) - neu berson(au) sy'n ymarfer cyfrifoldeb rhiant – sy'n bersonél i Wasanaethau'r Lluoedd Arfog:

- Yn Lluoedd Arfog Rheolaidd EM
- Wedi ymrwymo'n llawn fel rhan o'r gwasanaeth Wrth Gefn amser llawn
- Yn gyn-filwr sydd wedi bod mewn gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Bu farw un o'u rhieni wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae'r disgybl yn derbyn pensiwn o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiynau Rhyfel.

Mae SSCE Cymru hefyd yn annog ysgolion a lleoliadau addysg i ystyried nodi a chefnogi Plant y Lluoedd Arfog sy'n dod y tu allan i'r diffiniad hwn, gan gynnwys Plant y Lluoedd Arfog Ailymweliadau gydag ymrwymiad rhan-amser neu gyn-filwr/cyn-bersonel y Lluoedd Arfog wnaeth symud o'r Lluoedd Arfog dros dwy flynedd yn ôl.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog

*"3.1 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog beth oeddent yn deimlo yr oedd ysgolion yn ei chael yn heriol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, roedd 81% wedi nodi: cael dealltwriaeth o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog."*


Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Y pethau da yr wyf yn eu hoffi: rydych yn cael teithio a gweld gwahanol lefydd...yn peth arall da yw gwneud ffrindiau newydd a'r profiad o ddod i adnabod pobl eraill."*

**Shana, un o blant y Lluoedd Arfog**



Gall plant y Lluoedd Arfog ddod ag ystod eang o gryfderau a phrofiadau i gymuned ysgol a bydd wedi cael amrywiaeth o brofiadau dysgu mewn ysgolion blaenorol y gallant eu rhannu.

Efallai eu bod wedi cael profiad y fyw mewn gwledydd eraill, dysgu ieithoedd newydd a chael blas ar ddiwylliannau gwahanol. Mae plant y Lluoedd Arfog yn dod â deinameg newydd i gymunedau. Efallai eu bod wedi cael teithio o gwmpas y byd a bod ganddynt dalentau a sgiliau yn cynnwys dawnsio, celfyddyd, chwaraeon, ieithoedd a drama.

I weld fideos o blant y Lluoedd Arfog yn siarad am eu profiadau, ewch i brofiadau plant y Lluoedd Arfog ffilm.







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog



*"Pan wyf yn dechrau mewn ysgol newydd, rwyf yn teimlo'n nerfus. Rwyf yn rhoi ychydig o gyngor i'r athro: rhowch eich hun yn eu hesgidiau nhw. Dyna beth wyf yn ei wneud er mwyn gweld sut maent yn teimlo."*

**Mia, un o blant y Lluoedd Arfog**

Gall bod yn rhan o deulu yn y Lluoedd Arfog fod yn brofiad eithriadol fuddiol, ond gall agweddau o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog achosi heriau sydd yn effeithio ar addysg plentyn.

Gall yr heriau hynny gynnwys:

- Symud ysgol a chartref yn aml
- Gwahanu oddi wrth riant/rhieni yn y Lluoedd Arfog
- Newid i ddeinameg y teulu - yn digwydd yn fynych am wahanol resymau
- Rheoli emosiynau
- Dysgu sut mae delio ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Oedi o ran cefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) o ganlyniad i fethu ag arenwi gofynion
- Anhawster o ran ymrwymo i berthnasoedd gyda chyfoedion, oedolion ac ysgol
- Cymorth iechyd meddwl a lles
- Byw cryn bellter i ffwrdd oddi wrth y teulu estynedig/nain a thaid allai ddarparu cefnogaeth
- Gwneud ffrindiau newydd a gadael ffrindiau blaenorol
- Cadw mewn cysylltiad â theulu/ffrindiau o bell
- Setlo ac ymuno mewn gweithgareddau newydd
- Staff yr ysgol ddim yn deall yr anghenion a'r heriau posibl allai plentyn y Lluoedd Arfog fod yn eu wynebu.

Er y gall amgylchiadau unigol pob plentyn effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol mewn gwahanol ffyrdd, mae yna rai ffactorau cyffredin yn achos plant y Lluoedd Arfog all achosi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar wahanol adegau yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.
Gall hynny fod yn gysylltiedig ag adleoli, symud a phontio.

# Effaith adleoli a gwahanu

**Diffiniad adleoli:** cyfnodau pan fo personél y Lluoedd Arfog yn cael eu hanfod ar wasanaeth gweithredol, naill ai dramor neu yn y DU. Mae "taith" yn cyfeirio ar gyfnod o wasanaeth i ba le bynnag yr anfonir aelod o'r Lluoedd Arfog. Gallai hynny fod yn daith i sefydliad diffiniedig y Lluoedd Arfog (penodiad), taith weithredol dramor neu gyfnod estynedig o hyfforddiant mewn lleoliad arall.

**Diffiniad o wahanu:** Plentyn/plant y Lluoedd Arfog yn byw ar wahân oddi wrth eu rhieni am gyfnod o amser. Gan gynnwys tra mae'r rhiant sy'n Gwasanaethu yn byw i ffwrdd o gartref y teulu ar adleoliad, hyfforddiant, ymarfer neu tra'n 'wythnosa'.

*"Ni allwch stopio eich hun rhag meddwl am hynny. Ni alwch ddweud, 'Na, nid wyf yn meddwl am hynny', oherwydd e yw eich tad. Mae'n anodd gwneud hynny. Rwyf wedi tyfu i fyny yn mynd o un lle i'r llall ac yntau ddim adref drwy'r amser. Rwyf wedi dod arfer â hynny i raddau, ond rwyf yn dal yn ei golli llawn gymaint."*

**Georgia, un o blant y Lluoedd Arfog**





*"Aeth fy nhad i ffwrdd pan oeddwn yn ifanc, roeddwn yn arfer teimlo'n drist ac yn arogli ei ddillad. Wrth i mi fynd yn hŷn, roeddwn yn dod i arfer â hynny. Pan oedd yn dychwelyd roedd yn gyfnod hapus i mi ac roeddem yn arfer cael bwyd da."*

**Ashim, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Yn ystod adleoli, roeddem yn defnyddio Skype ac roedd rocedi yn cael eu tanio atom a larymau yn seinio ac roeddwn yn cymryd arnaf mai larymau tân oeddent. Mae hynny ar ei feddwl ac mae'n cyfeirio at hynny flynyddoedd yn ddiweddarach."*

**Swyddog yn y RAF a rhiant i blentyn y Lluoedd Arfog**

*"3.1 Pan ofynnir beth yw'r tair her fwyaf sylweddol sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog mewn perthynas ag addysg, y tri ateb pennaf a gafwyd gan ysgolion cynradd oedd: Effaith emosiynol gwahanu, yr effaith emosiynol pan fo rhiant/rhieni yn dychwelyd o adleoliad/hyfforddiant, effaith emosiynol yn ystod adleoliad."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"3.1 Mae 85% o'r plant wedi gweld eu rhieni yn mynd i ffwrdd ac wrth siarad am eu profiadau gwnaeth 62% ohonynt sylwadau negyddol am eu hemosiynau (trist, blin) a 50% ohonynt sylwadau negyddol am weld eisiau eu rhieni."*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)


*"3.2 Pan ofynnwyd iddynt am y pethau sydd yn eu helpu i ddelio gyda'u hemosiynau/teimladau pan fydd eu rhieni i ffwrdd, siaradodd 42% ohonynt am gefnogaeth ffrindiau neu fydis, a 39% ohonynt am gyfathrebu gyda'r rhiant sydd i ffwrdd."*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)




NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Profiadau adleoli




## Cylch emosiynol adleoli






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:

- Y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol adnodd absenoldeb rhiant
- Gwneud synnwyr o'r cylch emosiynol o ddefnyddio

## Wythnosa

'Wythnosa' yw'r norm i lawer o'n teuluoedd sydd â'u prif gartref yng Nghymru. Dyma ble bydd yr unigolyn yn y Lluoedd Arfog yn teithio i'w safle/uned/gorsaf a neilltuwyd bob wythnos yn hytrach na mynd gyda'r teulu. Mae 'Wythnosa' yn darparu sefydlogrwydd i deulu y Lluoedd Arfog o ganlyniad i fod yn llai symudol ond gall greu heriau i deuluoedd sy'n byw ar wahân am gyfnodau rheolaidd. Bydd hyn yn effeithio ar y tri o'r Lluoedd Arfog, gyda nifer cynyddol o deuluoedd yn debyg o fyw fel hyn yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod ysgolion a gwasanaethau statudol lleol yn deall yr heriau o ganlyniad i fod ar wahân i deulu y Lluoedd Arfog er mwyn darparu cefnogaeth briodol.

***"Dw i'n poeni beth sy'n mynd i ddigwydd i dad, ydi o mewn perygl o gael ei ladd?"***










NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Effaith Symud

**Diffiniad o symud:** symud/ail-leoli yn seiliedig ar anghenion gweithredol.

*"Cefais fy ngeni yn Yr Almaen yn Awst 2010, yn 2011 aeth dada i Ganada, 2012 aeth i Afghanistan, 2014 i Ynysoedd y Falklands, 2016 yn ôl i Ganada, ac yn Awst 2016 cawsom ein symud i Bulford, 2017 symud i Aberhonddu."*

**Lydia, un o blant y Lluoedd Arfog**





*"Roeddwn yn Ysgol Episkopi yng Nghyprus. Roedd yn bleserus iawn! pan ddywedodd dad bod raid i ni adael tair neu bedair wythnos ymlaen llaw, roeddwn yn siomedig iawn oherwydd cefais amser gorau fy mywyd yno, roeddwn yn gwybod na allwn wneud unrhyw beth, felly roedd raid i mi ei dderbyn."*

**Ryan, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Rwyf wedi bod i saith ysgol wahanol. Nid wyf wedi aros mewn un ysgol am gyfnod digon hir. Rwyf yn meddwl bod hynny yn effeithio'n fawr oherwydd bod raid i chi ganfod yr amser i wneud ffrindiau newydd a setlo. Mae'n eithaf anodd, ond oherwydd eich bod wedi gwneud hynny llawer o weithiau, rydych yn dod i arfer."*

**Shana, Un o blant y Lluoedd Arfog**





*"Gynted ag y byddwn yn dod i arfer i dŷ, rydych yn cael eich symud. Rwyf wedi bod mewn pedair ysgol ac wedi symud chwech gwaith."*

**Aiden, Un o blant y Lluoedd Arfog**

*"2.1 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog am eu profiadau, roedd 76% wedi cael profiad symud tŷ a 49% wedi cael profiad symud rhwng gwledydd o fewn y DU."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

*"2.1 Mae 77% wedi symud i dŷ newydd ac wrth siarad am eu profiadau roedd gan 51% ohonynt sylwadau negyddol am adael eu ffrindiau/teulu. Ar y llaw arall roedd 31% ohonynt wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am gwrdd â phobl newydd/gwneud ffrindiau."*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)


*"2.2 Mae 37% wedi byw tramor ac wrth siarad am eu profiadau gwnaeth 28% ohonynt sylwadau cadarnhaol a 7% ohonynt sylwadau negyddol am yr amgylchedd ffisegol (tywydd, anifeiliaid ac ati)."*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)

*"2.4 Pan ofynnwyd iddynt am y gweithgareddau sy'n gymorth iddynt wrth symud ysgol, siaradodd 41% ohonynt am gymorth bydi/cyfoed a siaradodd 30% ohonynt am ymweld â'r ysgol newydd a chwrdd ag athrawon newydd.*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)

## Profiadau o symud




Gall teuluoedd ddefnyddio **Symud Ysgolion: Canllaw i Rieni** gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) i gefnogi pontio llyfn i blant y Lluoedd Arfog.







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Effaith pontio

**Diffiniad o bontio:** cyfnod pan symudir o fywyd sifiliaid i fywyd y Lluoedd Arfog a vice versa.

***"Daeth ei gyfnod i ben yr wythnos ddiwethaf, felly bydd wedi gorffen erbyn diwedd y flwyddyn yma. Mae wedi gwneud 24 o flynyddoedd. Mae hynny yn well, oherwydd bydd o gwmpas llawer mwy. Mae'n hoffi dod i'n gwylio yn chwarae rygbi, felly bydd yn gallu gweld mwy ohonom."***

**Lewis, un o blant y Lluoedd Arfog**





***"Mae'r syniad o roi'r gorau yn llwyr i fod yn y Fyddin yn fy nychryn, fedrai ddim dychmygu sut y byddai'n effeithio ar fy Nhad, gan mai dyma yw ei fywyd cyfan am gyhyd."***

**Ieuan, un o blant y Lluoedd Arfog**

## Profiadau pontio

Yn y pen draw bydd holl bersonél y Lluoedd Arfog yn dychwelyd i fywyd sifiliaid, boed hynny ar ddiwedd eu hymgysylltiad ffurfiol neu yn gynnar oherwydd ymrwymiadau teuluol, rhesymau iechyd neu amgylchiadau na ragwelwyd. Gall gadael y Lluoedd Arfog a dychwelyd i gymdeithas sifiliaid achosi straen. Efallai y bydd gwahaniaethau diwylliannol yn golygu bod rhaid gwneud addasiadau personol.

Mae nifer o deuluoedd yn dewis setlo yng Nghymru. Efallai bod hynny oherwydd eu teuluoedd/ffrindiau a rhwydweithiau cymorth sydd ar gael iddynt, neu o ganlyniad i brofiadau/amser cadarnhaol wrth fyw yng Nghymru yn ystod penodiad.



# Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog

*"3.2 Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r tair her mwyaf sylweddol maent yn eu wynebu o ran cefnogi plant y Lluoedd Arfog, dywedodd 31% o ysgolion: Deall ffordd y fyw y Lluoedd Arfog."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"2.3 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog pa agweddau o'u profiadau fyddai wedi effeithio'n negyddol ar eu plentyn/plant, roedd 50% yn dweud mai setlo mewn ysgol newydd, 43% yn nodi symud i ffwrdd a cholli ffrindiau a theulu o ysgol/cartref blaenorol a 41% yn dweud mai setlo mewn ardal newydd a dysgu am ardal newydd."*

SSCE Cymru parent/carer survey (2020) findings

*"4.1 Pan ofynnwyd beth yw'r tri math o gefnogaeth mwyaf buddiol y gall yr ysgol gynnig i blant y Lluoedd Arfog, roedd y prif atebion gan ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys: Cymorth bugeiliol wedi ei deilwra, aelod staff penodol ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, cymorth/mentora cymheiriaid."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Yn seiliedig ar ymgynghoriad gydag ysgolion yng Nghymru, mae SSCE Cymru wedi nodi bod ysgolion yn gweld y meysydd canlynol o gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg yn heriol:

### Teulu

- Deall profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog
- Ymgysylltu â rhieni - yn arbennig pan fo'r data symud ymlaen ar gael
- Amser gweinyddol ychwanegol er mwyn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth am blentyn y Lluoedd Arfog rhwng ysgolion.
- Mwy o amser cefnogi er mwyn cefnogi teulu/plentyn wrth symud ysgol (i mewn neu allan)
- Iaith a Diwylliant
- Rhannau hanes teuluol a gwybodaeth - bod yn ymwybodol eu bod yn deulu y Lluoedd Arfog
- Colli rhwydweithiau cymdeithasol - creu rhai newydd
- Integreiddio i amgylchedd a chymuned ysgol newydd
- Cefnogi anghenion lles emosiynol plentyn a theulu y Lluoedd Arfog
- Cefnogi plentyn y Lluoedd Arfog yn ystod problemau teuluol posibl (ysgariad/gwahanu) - goblygiadau ariannol posibl a/neu symud ysgol eto.

*"Dw i'n hoffi clywed ei hanesion am ei deithiau."*






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Parodrwydd i ddysgu

- Cymorth a rhaglen gynefino
- Cymorth iechyd meddwl a lles pan fo angen
- Goresgyn anghenion/anawsterau emosiynol er mwyn eu galluogi i fod yn barod i ddysgu
- Anhawster adnabod ADY - oherwydd symudedd a cyfnod byr y gall plentyn y Lluoedd Arfog fod yn yr ysgol
- Ymateb yn gyflym i gefnogi newydd-ddyfodiaid
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion posibl plentyn y Lluoedd Arfog a'r cymorth sydd ei angen
- Absenoldeb yn ystod y tymor - bod yn hyblyg ynghylch absenoldeb o herwydd adleoli ac amgylchiadau eraill
- Trosglwyddo dogfennau blaenorol a hanes addysgol.

*“Dw i'n poeni am fwlis.”*

*“Dw i'n methu fy ffrindiau.”*





## Cynnydd a chyrhaeddiad

- Ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm blaenorol - er mwyn cefnogi bylchau posibl mewn dysgu neu ailadrodd cynnwys y cwricwlwm
- Adnabod bylchau mewn addysg/anghenion cwricwlwm/ymestyn dysgu
- Cefnogi effaith heriau ymddygiadol
- Trosglwyddo dogfennau blaenorol a hanes addysgol - yn arbennig wrth symud i wlad arall
- Sicrhau bod y staff yn cofleidio sgiliau a doniau plant y Lluoedd Arfog a'r arbenigedd y maent yn eu cynnig i'r ysgol
- Cefnogi plant y Lluoedd Arfog sydd yn dysgu Cymraeg am y tro cyntaf.

## Trosglwyddo

- Dealltwriaeth gyfyngedig o'r broses trosglwyddo allan o'r Lluoedd Arfog i bersonél y Lluoedd Arfog
- Cefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion emosiynol mewn ymateb i newid mewn dynamig teulu.
- Deall sut i gefnogi rhieni plant y Lluoedd Arfog yn ystod y trawsnewid i fywyd sifil neu o fywyd sifil i fywyd y Lluoedd Arfog, a allai fod mewn perthynas â'r effaith uniongyrchol neu dymor hir.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru**



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Y Lluoedd Arfog yng Nghymru



Profiadau plant y Lluoedd Arfog
Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
Byw yng Nghymru
Addysg yng Nghymru
Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor
Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cefnogaeth ysgol

# Cynnwys

## Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Cyflwyniad 17
Y Lluoedd Arfog yng Nghymru 17
Gwasanaethau Lles 21
Cyfamod y Lluoedd Arfog 23

# Cyflwyniad

Mae'r adran Lluoedd Arfog yng Nghymru yn Arweiniad Teuluoedd Milwyr SSCE Cymru yn cynnwys trosolwg cryno o'r tri Gwasanaeth yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth i deuluoedd Milwyr ar y cymorth sydd ar gael iddyn nhw a'r gweithgareddau yng Nghymru sy'n berthnasol i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

# Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

*"Mae bod yn rhan o'r Fyddin fel bod yn rhan o deulu, teulu enfawr sydd yn bodoli ar hyd a lled y DU, rhannau o'r Almaen ac Afghanistan."*

**Ieuan, un o blant y Lluoedd Arfog**



*"2.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr am eu profiadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar les a phrofiad addysgol eu plentyn/plant, dyma 55% yn nodi sicrwydd swydd i'r rhiant sy'n gwasanaethu a 39% yn nodi bod yn rhan o'r gymuned Lluoedd Arfog."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)








NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Y Lluoedd Arfog yng Nghymru




## Cymuned y Tri Llu

Er nad yw amddiffyn wedi ei ddatganoli i Gymru a bod hynny yn rhan o polisi Llywodraeth y DU, mae trefniadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gallu cydweithio â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ac aelodau'r Lluoedd Arfog ar bob lefel yng Nghymru.

Mae'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cynnwys personél sydd yn gwasanaeth yn y tri Llu: Y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol (RAF). Y lluoedd amlycaf yng Nghymru yw'r Fyddin a'r RAF, oherwydd nifer y lleoliadau yma yng Nghymru. Mae yna hefyd nifer o leoliadau Lluoedd Wth Gefn a Chadetiaid ar draws Cymru.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.



## Cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog

Mae nifer o gyn bersonél y Lluoedd Arfog wedi dewis setlo yng Nghymru ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Nid yw'r ffaith nad yw cyn filwyr/cyn bersonél y Lluoedd Arfog yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog mwyach yn golygu nad yr effeithir arnyn nhw a'u teuluoedd gan y profiadau a gafwyd tra'n gwasanaethu. Am y rheswm hynny mae SSCE Cymru yn annog ysgolion i adnabod a chefnogi plant cyn-filwyr/cyn-bersonél o'r Lluoedd Arfog ynghyd â phlant personél Lluoedd Arfog presennol.

## Y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol

HMS Cambria yw Uned Lluoedd Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, yng Nghaerdydd. Mae Adran Tawe yn uned ategol i HMS Cambria yn Abertawe. Bydd yna hefyd ychydig o bersonél Y Llynges wedi eu lleoli gyda Lluoedd Arfog eraill, a bydd nifer o aelodau'r Llynges yn byw yng Nghymru.

Mae nifer sylweddol o deuluoedd y Llynges Frenhinol a Môr-Filwyr Brenhinol yn dewis i gadw eu cartref parhaol yng Nghymru ond yn teithio i weithio mewn rhannau eraill o'r DU a thramor ac yn cael eu hymfyddino mewn llongau a llongau tanfor.

**I gael mwy o wybodaeth am y Llynges Frenhinol, ewch i [www.royalnavy.mod.uk](www.royalnavy.mod.uk)**







## Y Fyddin Brydeinig

Pencadlys Brigâd 160 (Cymru), yn Aberhonddu, sydd yn arwain gwaith y tri Llu ar draws Cymru gyfan. Dyma gysylltiad y Fyddin â llywodraeth a chymdeithas yng Nghymru, gan gefnogi'r Undeb, siapio'r amgylchedd recriwtio a darparu cefnogaeth gadarn, a dyma' pencadlys tactegol ar gyfer gweithrediadau'r DU yng Nghymru.

**I gael mwy o wybodaeth am y Fyddin yng Nghymru, ewch i [www.army.mod.uk/who-we-are/formations-divisions-brigades/regional-command/hq-160th-welsh-brigade/](www.army.mod.uk/who-we-are/formations-divisions-brigades/regional-command/hq-160th-welsh-brigade/)**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.




## Y Llu Awyr Brenhinol (RAF)

Mae yna ddwy orsaf yng Nghymru: RAF Y Fali ac MOD Sain Tathan. Mae RAF Y Fali ar Ynys Môn yn gartref i Ysgol Hyfforddi Hedfan Rhif 4, sydd yn gyfrifol am hyfforddi y genhedlaeth nesaf o beilotiaid ymladd o'r radd flaenaf. Mae criw awyr hefyd yn cael eu hyfforddi yn RAF Y Fali ar gyfer gweithrediadau ar fynyddoedd a môr o gwmpas y byd. Mae RAF Y Fali hefyd yn gartref i'r Gwasanaeth Achub Mynydd, yr unig wasanaeth chwilio ac achub parod bob tywydd ac ased rheoli ôl-ddamwain sydd gan y Lluoedd Arfog.

Mae MOD Sain Tathan yn safle MOD mawr yng Nghymru, wedi ei leoli ym Mro Morgannwg. Yma mae technegwyr peirianneg ar y tir y RAF yn cael eu hyfforddi. Mae'n gartref i Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4, sydd yn darparu hyfforddiant parhaus i bersonél orr tri Llu a staff sifiliaid MOD. Mae Sain Tathan hefyd yn gartref i Sgwadron Awyr Prifysgol Cymru.

**I gael mwy o wybodaeth ar weithgareddau RAF yng Nghymru, ewch i [www.raf.mod.uk/](http://www.raf.mod.uk/) neu [www.raf.mod.uk/rafvalley/](http://www.raf.mod.uk/rafvalley/)**







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Gwasanaethau Lles

***Diffiniad Y Weinyddiaeth Amddiffyn o Lesiant yw:***

Darparu strwythur o gefnogaeth gymunedol a phersonol sy'n hygyrch ac yn cael ei gydnabod yn eang ac sy'n sicrhau a gwella lles y personél sy'n gwasanaethu a chymuned y Lluoedd Arfog, ac sy'n gallu addasu i newid cymdeithasol, deddfwriaethol a gweithredol ac, wrth wneud hynny, yn gwneud y gorau o allu a chymhelliant milwrol yr holl ddynion a merched yn y lluoedd arfog.

*" Dw i'n cael chwarae yn nhŷ fy ffrindiau. "*

## Swyddogion lles

Mae swyddogion lles wedi eu lleoli yn mhob prif safle'r Fyddin yng Nghymru ac maent yn gyfrifol am les personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd pan fo angen. Efallai bydd gwasanaethau lles yn ymwneud â theuluoedd y Lluoedd Arfog er mwyn eu cefnogi ynghylch ystod o faterion eang, megis tai ac iechyd, fydd efallai yn arwain at oblygiadau i blentyn y Lluoedd Arfog a'i addysg. Hefyd dylai swyddogion lles allu darparu gwybodaeth leol mewn perthynas ad adleoliadau a gynllunnir a symudiadau mawr a gynllunnir.

## Cymorth yn y Gymuned

*"Rydym bob amser wedi bod yn ymwybodol ein bod yn ysgol ger Sain Tathan, ac nid oes cysylltiadau wedi bodoli, ac rydym wedi gwneud gwir ymdrech dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r ddarpariaeth a gweld sut y gallwn wella'r cysylltiadau cymunedol hynny."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr**

Pwrpas y tîm Cymorth yn y Gymuned/swyddogion Datblygu Cymunedol yw cefnogi cydnerthedd yn y gymuned drwy greu amrywiaeth o brofiadau hwyliog, cadarnhaol a diogel i blant, pobl ifanc, teuluoedd a phersonél y Lluoedd Arfog.



Mae gwneud pethau gyda'n gilydd ac ;n gilydd yn bwysig yn y gymuned. Mae'r ddarpariaeth yma yn debygol o gynnwys canolfannau cymunedol, canolfannau ieuenctid a phrosiectau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod rhai gwyliau ysgol. Mae Cymorth yn y Gymuned hefyd yn gysylltiedig â nifer o asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal leol er mwyn cynnig mynediad at wasanaethau a darparu gwell dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## HIVEs

Mae gwasanaethau gwybodaeth HIVE ar gael i holl aelodau cymuned y Lluoedd Arfog, sydd yn darparu cymorth ar ffurf gwybodaeth i aelodau'r Lluoedd Arfog arferol, y Lluoedd Wrth Gefn a'u teuluoedd a'u dibynyddion. Mae ystod eang o wybodaeth ar gael, sydd yn canolbwyntio ar wybodaeth am ail-leoli, gwybodaeth am yr ardal leol, addysg, llety, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant, gofal plant a theithio.

Mae HIVE yn ffordd dda o ddosbarthu gwybodaeth i gymuned y Lluoedd Arfog yn lleol, drwy eu blogiau, rhestrau e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

## Cymorth i Bersonél

Mae staff Cymorth Personél yn darparu gwasanaethau lles arbenigol, hygyrch, annibynnol, cyfrinachol a phroffesiynol i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ynghylch unrhyw anhawster personol neu deuluol, a thrwy hynny atgyfnerthir cydnerthedd cymuned y Lluoedd Arfog.

Efallai bydd cymorth yn cael ei ddarparu mewn meysydd megis cam-drin domestig, diogelu plant ac oedolion, galar, anawsterau mewn perthnasoedd, rheoli straen a gorbryder, lles emosiynol a chyfeirio.






# Cyfamod y Lluoedd Arfog

***"Dydi o ddim yn fywyd drwg. Mae rhai pobl yn dweud eich bod yn symud bob hyn a hyn o flynyddoedd, bo gennych chi byth ffrindiau sefydlog. O fy safbwynt i mae gennych gannoedd o ffrindiau mewn llefydd gwahanol, rydych yn cael y cyfle i fynd dramor. Dwi'n symud i Gyprus. Mae hi'n fendigedig yno, dwi'n cael y cyfle i gwrdd â phobl wahanol ac i wneud pethau gwahanol."***

**Chloe, un o blant y Lluoedd Arfog**



Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

Mae'r cyfamod yn canolbwyntio ar helpu aelodau cymuned y Lluoedd Arfog i beidio ag wynebu manteision neu anfanteision o ganlyniad i'w gwasanaeth, a'u bod felly yn cael mynediad at wasanaethau y llywodraeth a gwasanaethau masnachol a chynhyrchion fel unrhyw ddinasyddion eraill.

I gael mwy o wybodaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog, ewch i **www.armedforcescovenant.gov.uk/support-and-advice/**

Yn flynyddol mae Llywodraeth Cymru yn llunio **Adroddiad Blynyddol o Gyfamod y Lluoedd Arfog**, sy'n amlygu'r gwaith gwych yng Nghymru fel rhan o'r ymrwymiad i'r Cyfamod.

## Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol

Mae yna rwydwaith o Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol (AFLO) ar draws Cymru a'u rôl yw galluogi i Gyfamod y Lluoedd Arfog gael ei weithredu yn gyson ar draws Cymru. Ar hyn o bryd maent yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny yn cynnwys atgyfnerthu cyfathrebu mewn perthynas â'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ar draws Cymru, a rhoi hyfforddiant ar waith i staff rheng flaen awdurdodau lleol fel y gallant gefnogi anghenion personél y Lluoedd Arfog yn lleol, cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Blaenoriaethau Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yw:

- Codi ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog a'r materion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Gwella argaeledd gwybodaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Gwella'r cyfathrebu ynglŷn â Chyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru a wnaed gan/rhwng awdurdodau lleol
- Hyrwyddo a rhannu'r arfer orau.

I gael manylion cyswllt AFLO gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru**.

## Awdurdodau Lleol

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i ddelio ac ymatebi anghenion cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae cyfamod pob cymuned wedi cael ei ddylunio er mwyn bodloni anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn yr awdurdod lleol penodol hwnnw. Bydd bodloni ymrwymiadau'r cyfamod hwnnw yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol, cymdeithasau tai, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Mae gan bob awdurdod Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ac maen rôl a ymgymerir gan aelod etholedig. Pwrpas y rôl yma yw hyrwyddo buddiannau cymuned y Lluoedd Arfog yn yr awdurdod lleol; gweithredu fel un pwynt cyswllt; ac ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog yn lleol er mwyn arenwi materion penodol sydd yn achosi pryder.

Gall teuluoedd Milwyr ofyn am wybodaeth a manylion cyswllt gan Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.

SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Byw yng Nghymru



# Cynnwys

## Byw yng Nghymru

Cyflwyniad 26
Ynglŷn â Chymru 26
Diwylliant Cymru 28
Y Gymraeg 29
Y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc 29

# Cyflwyniad

Mae adran Byw yng Nghymru o Ganllaw Teulu Gwasanaeth Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg Cymru, yn cynnwys gwybodaeth allai fod yn ddefnyddiol i deuluoedd sy'n symud i Gymru am y tro cyntaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyffrous am ddiwylliant Cymru, ei bwyd a'r iaith Gymraeg, a'r gefnogaeth gymunedol sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

# Ynglŷn â Chymru

***"Pan oeddwn i yn fy hen dŷ, roeddwn yn nerfus am ddod i Gymru oherwydd rydw i wedi symud o gwmpas Lloegr i gyd, ond dydw i erioed wedi bod y tu allan i Loegr, felly doeddwn i ddim yn siŵr am ddod yma."***

**Chloe, un o blant y Lluoedd Arfog**



Mae Cymru yn genedl falch. Mae'n rhan o'r Deyrnas Unedig ac yn wlad ar ei phen ei hun hefyd, gyda llywodraeth ddatganoledig a Senedd sy'n creu ei deddfau ei hun. Mae tua 3.2 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru ac mae'n wlad amrywiol iawn o ran ei daearyddiaeth. Mae tua chwarter Cymru, o'r môr i'r mynyddoedd, yn Barciau Cenedlaethol neu yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## Ffeithiau

- **Poblogaeth:** 4.8% o boblogaeth y DU
- **Maint:** Mae arwynebedd Cymru tua 20,800km sgwâr
- **Parth Amser:** GMT
- **Arian:** Punt
- **Diwrnod Cenedlaethol:** Dydd Gŵyl Dewi, 1af Mawrth
- **Symbolau cenedlaethol:** Tri symbol cenedlaethol, o nifer o rai eraill, yw'r ddraig, cennin Pedr a'r genhinen.
- **Yr Anthem Genedlaethol:** Hen Wlad fy Nhadau
- **Llywodraeth:** Llywodraeth ddatganoledig gyda Phrif Weinidog, Cabinet a Senedd etholedig sy'n cyfarfod yn adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd.
- **Iaith:** Cymraeg a Saesneg – mae Cymru'n wlad ddwyieithog.
- **Dinasoedd:** Mae chwe dinas yng Nghymru ar hyn o bryd. Caerdydd yw prifddinas Cymru, gyda phoblogaeth o tua 363,000, ac mae wedi ei lleoli ar arfordir y de ddwyrain. I'r dwyrain, mae Casnewydd ac i'r gorllewin mae Abertawe. Mae gan Fangor ger y Fenai olygfeydd i gyfeiriad Ynys Môn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae gan Dŷ Ddewi yn Sir Benfro boblogaeth o lai na 2,000 a hon yw dinas leiaf Cymru. Yn olaf, cafodd Llanelwy yng ngogledd Ddwyrain Cymru statws dinas yn 2012 fel rhan o ddathliadau Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.



> *“Mae yna fwy o gefn gwlad yng Nghymru.”*

## Daearyddiaeth a thirnodau

> *“4.1 Pan holwyd teuluoedd y Gwasanaeth am eu profiadau cadarnhaol o fyw yng Nghymru, nododd 90% yr amgylchedd ffisegol (cefn gwlad, rhaeadrau, mynyddoedd, dinasoedd).”*
>
> Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Cymru yw’r wlad gyntaf i gael llwybr arfordir o amgylch ei ffiniau.

- **Mynydd uchaf:** Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol Eryri sy’n 1,085m (3,560 ft)
- **Llyn naturiol mwyaf:** Llyn Tegid 6 km o hyd
- **Enw lle hiraf:** Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwll-llantysiliogogogoch, yng Ngogledd Cymru a’r ystyr yw ‘Eglwys y Santes Fair yn y pant ger y coed cyll a’r trobwll gwyllt ac eglwys Sant Tysilio ger yr ogof goch’. Yn fyr, fe’i gelwir yn Llanfairpwll neu Llanfair PG.
- **Parciau Cenedlaethol:** Mae gan Gymru dri pharc cenedlaethol sy’n gorchuddio 20% o arwynebedd y wlad:
  - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
  - Parc Cenedlaethol Eryri
  - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol:** Mae gan Gymru bump Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, sydd wedi eu nodi at ddibenion cadwraeth ac er mwyn cydnabod eu pwysigrwydd cenedlaethol:
  - Ynys Môn
  - Gwyr
  - Dyffryn Gwy
  - Penrhyn Llŷn
  - Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Adeiladwyd rhai fel castell Carreg Cennen a chastell Cricieth gan dywysogion Cymru, ac mae eraill wedi eu hadeiladu gan y goresgynwyr yn rhan o “gylch dur” Edward I sef Biwmares, Harlech, Caernarfon a Chonwy.

> *“Dw i’n byw wrth ymyl traethau cudd yr RAF.”*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Bwydydd Cymru

Mae gan Gymru draddodiad hir o fyw ar ei chynnyrch ei hun a hynny'n dyddio i gyfnod yr hen Geltiaid. Mae Ynys Môn yn cael ei hadnabod fel Môn Mam Cymru oherwydd gallu'r ynys i gynhyrchu digon o fwyd i fwydo gweddill y wlad. Yng Nghymru, mae cyfoeth o farchnadoedd ffermwyr organig, cynhyrchwyr artisan, gwyliau bwyd a bwytai cydnabyddedig. Mae rhai o fwydydd mwyaf cyffredin Cymru yn cynnwys:

- Cig oen Cymreig
- Cawsiau o fri (Caerffili, Tyndyrn, Y Fenni)
- Cennin
- Brecwast Cymreig (bawn, wyau, bara lawr a chocos)
- Caws pob
- Cacen gri
- Lobsgóws.

> *"Dw i'n hoffi cacennau cri."*

Am wybodaeth ynglŷn â symud i Gymru a byw yma, ewch i ddarllen dogfen Llywodraeth Cymru Croeso i Gymru: Cefnogi a buddosddi yng Nghymuned ein Lluoedd Arfog yng Nghymru.

## Diwylliant Cymru

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau gallwch fod"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"4.1 Pan holwyd teuluoedd y Gwasanaeth am eu profiadau cadarnhaol am fyw yng Nghymru soniodd 26% am chwaraeon a 22% am ddysgu am ddiwylliant Cymru."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

### Dydd Gŵyl Dewi

Mae traddodiadau a dathliadau yn cysylltu Cymru gyfoes â'i gorffennol. Ar 1af Mawrth, daw'r wlad at ei gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a bydd plant yn gwisgo'r wisg draddodiadol neu'n gwisgo crys coch tîm chwaraeon y wlad.

### Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod yn gwbl unigryw i Gymru ac mae'n gymysgedd o ddathliad o ddiwylliant y wlad, ac yn gyfle hefyd i gystadlu.
Cynhelir yr eisteddfod fwyaf, yr Eisteddfod Genedlaethol yng ngogledd a de'r wlad bob yn ail flwyddyn. Dyma ŵyl gerddoriaeth a barddoniaeth fwyaf Ewrop ac mae ei hanes yn dyddio nôl i 1176. Bydd dros 6,000 o gystadleuwyr yn cymryd rhan ac mae safon y cystadlu yn arbennig o uchel.
Mae rhai ysgolion yng Nghymru yn creu eu heisteddfod eu hunain fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Gall hyn gynnwys gwaith celf a chrefft, ac ysgrifennu neu ganu a llefaru. Gall y gweithgareddau hyn ddigwydd yn Gymraeg a Saesneg.

**Am fwy o wybodaeth am Gymru, gweler gwefan Visit Wales.**

# Y Gymraeg

*"2.2 Dywedodd 31% o deuluoedd y Lluoedd Arfog fod dysgu Cymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn(plant)."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Mae'r Gymraeg yn rhan o fywyd o ddydd i ddydd. Caiff ei siarad gan dros hanner miliwn o bobl, ei dysgu mewn ysgolion a'i dathlu mewn gwyliau fel yr Eisteddfod, sy'n uchafbwynt y calendr diwylliannol Cymreig. Gwelir y Gymraeg mewn enwau lleoedd ac ar arwyddion stryd a gwellir ei chlywed ar y teledu a'r radio. Mae'r sin gerddoriaeth Gymraeg yn ffynnu, ac mae rhaglenni teledu a ffilmiau Cymraeg ennyn sylw y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Mae'r Gymraeg yn amlwg iawn yng Ngogledd Cymru gyda mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer teuluoedd Gwasanaeth yr RAF sy'n mynd i RAF Y Fali ar Ynys Môn, gall teuluoedd gael addysg cyfrwng Saesneg drwy arian Lwfans Ysgol Ddydd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Am fwy o wybodaeth a'r dewis ynglŷn â'r Gymraeg, enghreifftiau o arfer dda a chefnogaeth i ddysgu Cymraeg, gweler adran **Addysg yng Nghymru** yn y canllaw hwn.

# Y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc

*"Erthygl 15: Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Fe ddysgir llawer o "allu cymdeithasol" drwy weld a gwneud, drwy brofi a methu yn ogystal â llwyddo – gan ennill y gallu i ymdopi â methiant, i fownsio'n ôl a dysgu o'r profiad. Mae gweithgareddau allgyrsiol, fel darpariaeth addysg ategol, yn helpu plant a phobl ifanc i siapio, myfyrio a gwerthuso'u bywydau. Mae hefyd yn eu galluogi i ddatblygu eu lles personol a chymdeithasol a gwella'u cyfle i gael swyddi a'u cyfle mewn bywyd. Mae'n rhoi mynediad i blant a phobl ifanc at amgylchedd gefnogol, perthnasau'n seiliedig ar ymddiriedaeth gydag oedolion dibynadwy, cyfoedion cadarnhaol a chyfle i ddysgu o ystod o gyfleoedd dysgu newydd.



## Gweithgareddau Allgyrsiol

*"3.2.1 Pan holwyd teuluoedd y Lluoedd Arfog pa gefnogaeth oedden nhw'n teimlo oedd wedi bod o fudd i'w plant, dywedodd 21% mai gweithgareddau allgyrsiol oedd hynny."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

**Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:**

- Achredu
- Clybiau ar ôl ysgol
- Cwricwlwm amgen
- Y celfyddydau a drama
- Gwobr Dug Caeredin
- Ewropeaidd a rhyngwladol
- Rhyw benodol
- Iechyd a lles
- Cynlluniau gwyliau
- Digwyddiadau gwybodaeth a marchnata
- Technoleg gwybodaeth
- Grwpiau lleiafrifol
- Cyfranogi/fforymau/cynghorau
- Preswyl
- Chwaraeon a gweithgareddau corfforol
- Darpariaeth sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg/diwylliant
- Cadetiaid
- Urdd Gobaith Cymru
- Sgowtiaid/Geidiaid.

*"Ym myd plant milwyr, lle mae newid ysgol a lleoliad yn rhywbeth arferol iawn, mae derbyn gwasanaethau cymorth ieuenctid o ansawdd da yn allweddol i wneud yn siŵr bod y bobl ifanc yn derbyn 'y cychwyn gorau mewn bywyd' beth bynnag eu hamgylchiadau unigryw."*

**Swyddog Datblygu Cymunedol, RAF y Fali**

*"Mae gan blant milwyr gyfoeth o rinweddau cadarnhaol, felly mae'n hollbwysig eu bod yn derbyn y cyfle i wneud y mwyaf o'r rhain yn ystod eu haddysg. Mae nodweddion unigryw bywyd yn y lluoedd arfog, gan gynnwys y gofynion emosiynol a symud o le i le, yn golygu bod yn rhaid i'r gymuned addysgol ddeall ac ymgysylltu â bywydau'r plant wrth iddynt ddatblygu eu hymarfer."*

**Dr Michael Hall, Cynghrair SCiP**

*"Mae gwaith ieuenctid yn rhoi cyfle i dderbyn addysg drwy ddull gwahanol, sy'n llai ffurfiol nag ysgol neu sefydliad addysg bellach ac sy'n aml iawn yn cael ei arwain gan y person ifanc. Mae'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gyda phobl ifanc 11-25 oed ac mae'n cynnig pwynt mynediad i wasanaethau eraill a all fod eu hangen yn ystod y berthynas gyda'r person ifanc – mae gweithwyr ieuenctid yn adnabod eu cymunedau yn dda ac yn froceriaid medrus i wasanaethau eraill heb y stigma arferol sydd ynghlwm wrth hynny."*

**Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (ieuenctid), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

army families federation

Naval Families FEDERATION

ROYAL AIR FORCE Families Federation

SSCE CYMRU SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Cymorth ac Adnoddau

**Ffederasiwn teuluoedd**

Mae teuluoedd y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael budd o dair Ffederasiwn Teulu sy'n eiriolwyr dros deuluoedd y Lluoedd Arfog, yn rhoi cymorth, cyngor a gwybodaeth. Mae Ffederasiwn Teuluoedd yn gweithio'n agos gyda Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg Cymru ac maen nhw'n aelodau o grŵp arbenigol Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru.

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter**
**@SSCECymru**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Addysg yng Nghymru



# Cynnwys

## Addysg yng Nghymru

Cyflwyniad 33
Addysg 33
Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022) 37
Arholiadau ac asesiadau 40
Yr iaith Gymraeg 41
Cymharu Addysg 44
Darpariaeth addysg arall 48
Blynyddoedd cynnar/gofal plant 49
Addysg ôl-16 50

# Cyflwyniad

Mae adran Addysg yng Nghymru o'r Canllaw Teulu Lluoedd Arfog SSCE Cymru yn cynnwys gwybodaeth a all fod yn ddefnyddiol i deuluoedd sy'n symud i Gymru am y tro cyntaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y cwricwlwm, arholiadau/asesiadau a'r iaith Gymraeg mewn ysgolion yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu gorolwg o leoliadau addysg y tu allan i oedran ysgol gorfodol a darpariaeth addysg arall. Gan ddeall bod neu y bydd llawer o deuluoedd y Lluoedd Arfog yn symud rhwng gwahanol wledydd a systemau addysg, mae'r canllaw hefyd yn darparu cymariaethau i deuluoedd y Lluoedd Arfog rhwng y cenhedloedd yn y DU gan gynnwys y cwricwlwm, grwpiau blwyddyn ysgol ac amser tymor.

# Addysg

*"4.4.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog pa gefnogaeth oedden nhw'n deimlo fyddai wedi helpu plant y Lluoedd Arfog i setlo i mewn i gymuned ac ysgol newydd, roedd 69% wedi nodi gwybodaeth am addysg yng Nghymru a'r cwricwlwm a 54% wedi nodi gwybodaeth ar ddysgu Cymraeg."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

*"Rydw i wedi bod mewn saith ysgol wahanol. Dydw i ddim wedi aros mewn unrhyw un ysgol yn ddigon hir. Mae'n cael effaith fawr ar rywun oherwydd mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r amser i wneud ffrindiau a setlo fewn. Mae'n weddol anodd ond gan eich bod wedi gorfod gwneud hynny'n aml, rydych chi'n arfer â'r peth."*

**Shana, un o blant y Lluoedd Arfog**





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

*"Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol."*

**Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru**

*"Mae anghenion ofnadwy o wahanol ganddynt.... efallai bod myfyriwr Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn fwy abl, ond gan eu bod wedi symud gymaint o weithiau, mae'n bosib nad ydynt wedi cael eu hymestyn. Yn yr un modd efallai fod ganddynt anawsterau Anghenion Addysgol Arbennig, ac mae'n bosib nad yw'r rhain wedi eu nodi gan eu bod wedi symud ysgolion."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr**

Mae Addysg yng Nghymru wedi'i ddatganoli. Mae hyn yn golygu y gall Llywodraeth Cymru wneud cyfreithiau a phenderfyniadau am addysg yng Nghymru a wneir ar wahân i Lywodraeth y DU. Bydd teuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n symud i Gymru yn profi cwricwlwm gwahanol, ac felly, rhai gwahaniaethau mewn addysg ac asesiadau. Mae yna hefyd lawer o debygrwydd rhwng system addysg yng Nghymru a'r systemau eraill sydd wedi eu datganoli a ddefnyddir yng ngweddill y DU.

**Addysg orfodol yng Nghymru i ddisgyblion rhwng 5 ac 16 oed. Mae ysgolion yn cael eu rhannu yn:**

- Cynhelir gan yr Awdurdod Lleol (cymunedol/ cynhwysfawr) – yn eiddo ac yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol, sy'n gosod y meini prawf derbyniadau
- Gwirfoddol – cynhelir gan fudiad gwirfoddol (yng Nghymru mae hyn yn nodweddiadol yr Eglwys Gatholig Rufeinig neu'r Eglwys yng Nghymru) ond yn cael ei fonitro'n agos gan yr awdurdod lleol.
- Ysgolion sefydledig – yn eiddo naill ai i'r corff llywodraethu neu sefydliad elusennol
- Ysgolion annibynnol – addysg breifat y telir ffi

Mae gweinidogion Cymru yn rheoleiddio bron pob maes o addysg yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, maent yn rheoleiddio'r gweithlu addysg, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y fframwaith prentisiaethau, y system gymwysterau ac arholiadau ysgol, a'r rhan fwyaf o sefydliadau addysgol.

Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth o gyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg, o dan arweiniad a rheolaeth Gweinidogion Cymru. Er enghraifft, mae eu dyletswyddau'n cynnwys gwneud yn siŵr bod digon o ysgolion yn eu hardaloedd a sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cwricwlwm Cymru eisiau i blant fwynhau dysgu a datblygu sgiliau, gwybodaeth, a gwytnwch emosiynol. Erbyn iddynt fod yn 16 oed, dylent fod yn unigolion hyderus ac egwyddorol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a'u cymdeithas. Dylent fod yn barod i ffynnu yn y byd gwaith newydd.







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

**Mae pob ysgol yn chwarae rôl o ran hyrwyddo ymrwymiad i addysg i bawb, a gellir cyflawni hyn drwy ddull ysgol gyfan sy'n cynnwys:**

- Cydnabyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Profiadau dysgu ac addysgu o safon uchel
- Ethos a gweledigaeth glir i bob dysgwr
- Gwreiddio'r ethos hwn ar draws cymuned yr ysgol
- Sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a sefydliadau allanol
- Cynllunio a gwneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Ymrwymiad drwy bolisïau ac arferion
- Perthnasau llawn parch rhwng athrawon a dysgwyr
- Trefniadau adlewyrchu a hunan werthuso
- Cynnig addysgu proffesiynol ac ymrwymiad i les staff
- Gwrando ar lais y disgybl a chyfleoedd cyngor ysgol
- Arferion amgylchedd yr ysgol.

**Gallai polisïau ysgolion a allai gefnogi'r arfer hwn gynnwys:**

- Y Cwricwlwm
- Dysgu ac addysgu
- Asesu
- Ymddygiad a gwrth-fwlio
- Diogelu ac amddiffyn plant.

Gall pob plentyn, gan gynnwys plant Milwyr, brofi anawsterau ar ryw gyfnod yn eu bywydau Mae plant Milwyr yn wynebu heriau sy'n dod gyda bywyd Milwyr, gan gynnwys symud yn aml ac effeithiau rhiant yn cael eu lleoli, ac effeithiau bod ar wahân. Mae pob plentyn yn unigolyn ac yn rheoli sefyllfaoedd mewn gwahanol ffyrdd.






## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg cynradd fod am ddim a rhaid i wahanol ffurfiau o addysg uwchradd fod o fewn cyrraedd pob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plentyn a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod. Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd plentyn hyd eithaf eu potensial. Rhaid magu parch y plentyn tuag at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, yn ogystal â'r amgylchedd"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae lleoliadau addysg yng Nghymru yn gweithio'n galed i alluogi plant i sylweddoli eu hawliau, a dylai ysgolion wneud y cyswllt rhwng eu gwaith a hawliau'r plentyn yn amlwg wrth iddynt sefydlu fframwaith glir ar gyfer eu gwaith. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu sylfaen gadarn o werthoedd ar gyfer cymuned ysgol, sy'n cael eu cydnabod o dan ddeddfwriaeth ryngwladol. Mae polisi a deddfwriaeth ar blant yng Nghymru yn cael eu hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae "Dull Hawliau Plant" yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn a bydd yn helpu lleoliadau addysgiadol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Egwyddorion Dull Hawliau Plant yw:

- Ymsefydlu hawliau plant
- Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd.

Am wybodaeth bellach ewch i **www.complantcymru.org.uk**

## Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru

Diben **Estyn** yw archwilio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae "Plant Teuluoedd Milwyr" yn cael eu cynnwys o dan adran 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol yn **Llyfr Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol.** Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o blant Milwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol; ac yn annog ysgolion i fonitro cynnydd a chanlyniadau'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr.

Mae Estyn yn diffinio disgyblion diamddiffyn fel *"y sawl sy'n fwy tebyg o brofi rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol tuag at ddysgu."*

Mae Estyn yn argymell fod ysgolion yn ystyried **https://www.sscecymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/arferda/default.htm** ac yn dilyn canllawiau i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog.

Mae Estyn yn hybu gwaith a wnaed gan SSCE Cymru ac yn pwysleisio canfyddiadau a ddangosir sy'n "gefnogaeth fugeiliol wedi'i theilwra, ynghyd â chael aelod o staff ymroddedig" y gefnogaeth fwyaf buddiol y gall ysgolion ei chynnig i Blant y Lluoedd Arfog.

Am fwy o wybodaeth a chanllawiau gan Estyn, gallwch ddarllen yr adroddiad llawn **yma**.

# Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022)

*"2.3 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog pa agweddau o'u profiadau oedd wedi cael effaith negyddol ar blant y Lluoedd Arfog, roedd 34% wedi nodi addasu i gwricwlwm gwahanol mewn gweinyddiaeth wahanol a ffyrdd newydd o ddysgu."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Ar hyn o bryd mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael ei ddiffinio gan Ran 7 Deddf Addysg 2002. Bydd y cam cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm newydd fesul cam yn cychwyn yn 2022 ar y cynharaf. Bydd yn berthnasol i bob Cyfnod Allweddol – o 3 i 16 mlwydd oed.

## Pedwar diben

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a'r gweithgareddau asesu a gynlluniwyd at bedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc fel:

- Dysgwyr galluog a hyderus, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion hyderus ac iach, yn barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Cwricwlwm Cymru 2022 wedi ei ddylunio i helpu pob dysgwr i gyflawni'r pedwar diben hwn. Mae pob diben yn fwy na phennawd yn unig; mae hefyd yn cael ei ddisgrifio o safbwynt nodweddion allweddol. Gyda'i gilydd dylent fod yn sail i holl ddysgu ac addysgu Cymru.

Am wybodaeth bellach ewch i [llyw.cymru/cwricwlwm-gymru](llyw.cymru/cwricwlwm-gymru)





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Meysydd Dysgu a Phrofiad

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei drefnu mewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad (AoLE). Bydd y rhain yn disodli'r pynciau Cwricwlwm Cenedlaethol presennol ar gyfer holl ddysgwyr 3-16 oed. Dylai holl AoLE gael eu trefnu i gefnogi datblygiad y pedwar diben.

Mae'r chwech Maes Dysgu a Phrofiad wedi eu hamlinellu isod:

- **Y Celfyddydau Mynegiannol:** dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol, cerdd a'r celfyddydau gweledol
- **Iechyd a Lles:** iechyd corfforol a datblygiad, iechyd meddwl ac emosiynol a lles cymdeithasol
- **Y Dyniaethau:** hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol
- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Cymraeg, Saesneg, ieithoedd rhyngwladol a llenyddiaeth (gall ieithoedd rhyngwladol gynnwys ieithoedd modern, ieithoedd clasurol, ieithoedd cymunedol fel Pwylaidd neu Pwnjabeg a Iaith Arwyddion Prydain)
- **Mathemateg a Rhifedd:** dealltwriaeth gysyniadol, cyfathrebu yn defnyddio symbolau, rhuglder, rhesymeg resymegol a gallu strategol
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg:** dylunio a thechnoleg, peirianneg, cyfrifiadureg, bywydeg, cemeg a ffiseg.





Bydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn helpu ysgolion i nodi'r wybodaeth, sgiliau a phrofiad allweddol y dylai pobl ifanc dderbyn ar draws y continwwm.

Ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad mae yna sawl "Datganiad o Beth sy'n Bwysig" sy'n gweithredu fel canllawiau i sicrhau lefel o gysondeb mewn dyluniad cwricwlwm ar draws pob ysgol a lleoliad. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o holl ddatganiadau ar draws y chwech Maes Dysgu a Phrofiad. Drwy archwilio ac ailymweld â'r datganiadau hyn, bydd dysgwyr yn datblygu mwy o wybodaeth dros y continwwm dysgu ac yn ennill mwy o ddealltwriaeth soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau ac egwyddorion allweddol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Yn ogystal ag ymgysylltu â'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, bydd yn ofynnol i bob disgybl astudio'r elfennau gorfodol canlynol o'r cwricwlwm:

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Perthynas ac addysg rhywioldeb
- Cymraeg
- Saesneg

Bydd disgyblion hefyd angen datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol mewn:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd digidol.

## Disgrifiadau o Camau Cynnydd a Dysgu

Yn y Cwricwlwm Cymru newydd, mae Disgrifiadau o Ddysgu yn darparu canllawiau ar sut y dylai dysgwyr ddatblygu o fewn pob Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig.

Bydd y Disgrifiadau Dysgu yn:

- Galluogi cynnydd a chefnogi dysgwyr i gyflawni'r "Hyn sy'n Bwysig" a'r pedwar diben perthnasol.
- Ei ystyried yn hanfodol i'r "Hyn sy'n Bwysig", yn adlewyrchu pynciau perthnasol, disgyblaeth neu feysydd o fewn cwmpas y Maes Dysgu a Phrofiad ac/neu i baratoi dysgwyr ar gyfer eu rolau o fewn addysg, gwaith a chymdeithas yn y dyfodol.
- Bod yn ddigon eang i fod yn ystyrlon ar draws y continwwm dysgu (a heb ei glymu i Gamau Cynnydd penodol).

Mae'r Disgrifiadau Dysgu wedi eu trefnu mewn pum Cam Cynnydd sy'n gweithredu fel pwyntiau cyfeirio ar gyfer camau cynnydd.

Bydd Camau Cynnydd yn cael eu defnyddio fel Cyfnodau Allweddol. Mae'r Camau Cynnydd hyn yn gyffredinol yn ymwneud â disgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Mae'r Camau Cynnydd wedi eu cyflwyno i sicrhau continwwm dysgu, yn lle anhyblygrwydd Cyfnodau Allweddol blaenorol. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ar raddfeydd gwahanol. Ni fydd deilliannau cyflawniad yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol ar gyfer asesu. Yn hytrach, byddant yn cael eu defnyddio i lywio dyluniad cwricwlwm, datblygu a chynllunio a chefnogi cynnydd dysgu. Dylai asesiad fod yn broses barhaus, wedi'i sefydlu ac ni ddylai ysgolion gynnal gweithgareddau asesu penodol ym mhob Cam Cynnydd i wneud dyfarniad am gynnydd dysgwr ar bwynt mewn amser neu oedran penodol. Fodd bynnag, bydd disgyblion yn parhau i fynd drwy asesiad ffurfiol ac arholiad yn 16 oed.

## Gwahaniaethau yn y cwricwlwm (cynradd/uwchradd/lleoliadau eraill)

- **Ysgol gynradd:** i ddygwyr 3-11 oed; gellir disgwyl i ddisgyblion gyrraedd Cam Cynnydd 3 erbyn y byddant yn 11 oed
- **Ysgol uwchradd:** i ddygwyr 11-16 oed; gellir disgwyl i ddisgyblion gyrraedd Cam Cynnydd 5 erbyn y byddant yn 16 oed, a byddant yn eistedd arholiadau ffurfiol (TGAU) yr oedran hwn.

Ni fydd yn ofynnol i leoliadau unedau cyfeirio disgyblion a ariannwyd, nas cynhelir a'r sawl sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ddylunio cwricwlwm yn yr un ffordd ag ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig a gynhelir.

*"Nid ydym wedi symud o'r fan hyn ers ychydig o amser gan fod gennai fy arholiadau TGAU, felly aeth ef [Dad] i Fryste, euthum i'w weld yn achlysurol ac roedd yn dychwelyd ar benwythnosau, er ei fod pedair awr i ffwrdd. Mae pobl yn meddwl eu bod wedi ysgaru ond nid ydynt."*

**Harry, un o blant y Lluoedd Arfog**





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Arholiadau ac asesiadau

## Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mae'n ofynnol i holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 eistedd profion llythrennedd a rhifedd blynyddol i asesu cynnydd a nodi ble bydd plant unigol angen mwy o gymorth i wella eu sgiliau. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu cwblhau ar-lein.

Mae'r prawf Llythrennedd (darllen) yn cynnwys cwestiynau byr yn seiliedig ar ddau destun neu fwy. Mae rhai o'r cwestiynau yn gwirio pa mor dda mae'r testun wedi'i ddeall; eraill yn anelu i ganfod sut mae plant yn gallu beirniadu'r hyn maent yn ei ddarllen.

Mae yna ddau brawf Rhifedd; gweithdrefnol a rhesymu. Mae'r prawf gweithdrefnol yn mesur sgiliau rhifedd, mesur a data. Mae'r prawf ymresymu yn mesur pa mor dda gall plant ddefnyddio beth maent yn ei wybod i ddatrys problemau bob dydd.

## TGAU

TGAU yw'r prif gymhwyster addysgol cyffredinol yng Nghymru o hyd. Mae disgyblion fel arfer yn sefyll TGAU ym mlwyddyn 11. Mae dwy Lefel iddynt sef Lefel 2 (graddau A*-C) a lefel 1 (graddau D-G). Mae hyn yn wahanol i'r system TGAU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ble mae graddau rhwng 1 a 9 yn cael eu dyfarnu. Bydd mynediad i naill ai Lefel 1 neu Lefel 2 yn pennu pa amrediad o raddau gall disgybl eu hennill. Mae'n ofynnol i ddisgyblion yng Nghymru sefyll TGAU mewn rhai pynciau craidd (Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth). Mae disgyblion yn gallu dewis ystod o bynciau eraill i astudio ar y lefel hon.

Bydd y pynciau ychwanegol a chymwysterau a gynigir yn amrywio rhwng ysgolion. Felly, mae'n bwysig siarad gyda'r ysgol ynglŷn â'u maes llafur fel eu bod nhw a'ch plant yn gallu gwneud y penderfyniadau mwyaf hysbys.

## UG a Safon Uwch

UG a Safon Uwch yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 3 ac fel arfer yn cael eu sefyll yn 16 i 19. Maent ar gael mewn ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol. Bydd myfyrwyr fel arfer yn astudio rhwng dau a phump UG/Safon Uwch dros gyfnod o ddwy flynedd.

## Cymwysterau galwedigaethol

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cymwysterau galwedigaethol lefelau 1, 2 a 3. Gellir astudio'r rhain ochr yn ochr â TGAU a Safon Uwch. Gall cymwysterau galwedigaethol gynnwys:

- Cymwysterau BTEC – dyluniwyd i ddysgwyr â diddordeb mewn diwydiant neu faes gwaith penodol.
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru – anelwyd at bobl ifanc 14 – 19 oed, mae'r rhain yn cynnwys: sgiliau cymhwyso rhif, sgiliau cyfathrebu, sgiliau llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd
- FfCCh/NVQ – cymhwyster ar sail gyrfa a ddarperir yn y gweithle neu rhywle a sefydlwyd fel gweithle

Bydd y pynciau ychwanegol a'r cymwysterau sy'n cael eu cynnig yn amrywio rhwng ysgolion, felly mae'n bwysig siarad â'r ysgolion am eu meysydd llafur, er mwyn i chi a'ch plant allu gwneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus.

## Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster sefydledig, wedi ei achredu'n swyddogol, sy'n cael ei ddarparu gan ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru. Mae'n cyfuno sgiliau datblygiad personol â chymwysterau cyfredol, fel lefelau A,TGAU ac NVQs, i wneud un dyfarniad ehangach mae cyflogwyr a phrifysgolion yn rhoi gwerth arno. Mae myfyrwyr yn cael profiad o'r byd drwy amrywiaeth o brofiadau cysylltiedig â gwaith ac yn dysgu sut i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Mae CBC ar gael ar hyn o bryd ar lefelau Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch. Gall disgyblion ymgymryd â'r cwrs Sylfaen (Lefel 1) neu gwrs Cenedlaethol (Lefel 2) yn 16 oed, a'r cwrs Uwch (Lefel 3) yn ôl-16.

Am fwy o wybodaeth ewch i: [www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru](www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru)



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Yr iaith Gymraeg



*"Pan ddes i yma gyntaf, roeddwn yn nerfus am y Gymraeg a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud."*

**Prasna, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Rydym yn edrych ar eu bylchau ac yn darparu ymyraethau pwrpasol."*

**Gweithiwr Allweddol Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ysgol Gymunedol Prendergast**

*"4.1 Wrth siarad am eu profiadau yn byw yng Nghymru, gwnaeth 16% o'r plant sylwadau negyddol am ddysgu Cymraeg ac 8% sylwadau cadarnhaol. Ni chafwyd sylwadau negyddol na chadarnhaol am ddysgu Cymraeg gan y plant hynny sy'n mynychu'r ysgol Gymraeg."*

Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)

*"Mae'r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o beth sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein uchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld y nifer o bobl sy'n mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hwn yn uchelgais heriol, ond yn her rydym yn ei gredu sy'n un gwerth chweil ac yn angenrheidiol os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."*

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog, ac Alun Davies AC, cyn Weinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg

*"Mae dysgwyr y mae'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt yn wynebu heriau ychwanegol o ran caffael iaith a llythrennedd. Mae'n bosib bod dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn dysgu Saesneg / Cymraeg am y tro cyntaf, ac felly bydd angen cymorth penodol ychwanegol arnynt er mwyn eu helpu i gaffael sgiliau llythrennedd priodol. Dylid darparu deunyddiau sy'n briodol i'w gallu, eu haddysg a'u profiadau blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad iaith. Mae natur flynyddol y datganiadau o ddisgwyliad yn caniatáu ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r sgiliau priodol i'w cwricwlwm."*

**Rheolwr Prosiect, SSCE Cymru**

*"3.2 Pan ofynnwyd beth oedd y tair her fwyaf sylweddol yr oeddent yn wynebu wrth gefnogi plant Milwyr, nododd dros 25% o ysgolion uwchradd: Cynorthwyo plant Milwyr i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf"*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"3.1 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog beth oeddent yn feddwl oedd ysgolion yn teimlo oedd yn heriol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, roedd 44% yn nodi cefnogi plant y Lluoedd Arfog i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni anghenion addysgol holl blant a phobl ifanc Cymru fel y gallant gyflawni eu llawn botensial. Mae astudio Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith yn elfen statudol o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru, ar gyfer pob dysgwr hyd at 16 oed.

Mae ymchwil yn dangos bod siarad mwy nag un iaith yn gallu rhoi hwb i blentyn mewn sawl ffordd.

Gall bod yn ddwyieithog:

- Ei gwneud yn haws i ddysgu ieithoedd eraill, a chyflwyno plant i wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau
- Cael effaith bositif ar yr ymennydd
- Manteisiol iawn wrth chwilio am waith, integreiddio i'r gymuned leol a chefnogi'r economi lleol.

## Datgymhwyso Plant Milwyr o ran arholiadau Cymraeg

*"Erthygl 3: Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Er bod astudio Cymraeg yn orfodol, does dim gofyniad i ysgolion gofrestru dysgwyr ar gyfer cymhwyster penodol. Yr ysgolion unigol sydd i benderfynu ar hynny, gan ystyried lles y dysgwr. Rhaid i ysgolion, os yw arholiad yn cael ei sefyll ai peidio, sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at y rhaglen gwricwlwm llawn o astudiaeth ar gyfer pa gwrs bynnag sy'n cael ei ddilyn. Mae hwn yn ofyniad gorfodol.

Dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y gall fod angen datgymhwyso dysgwyr dros dro o unrhyw ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dim ond y pennaeth all wneud y penderfyniad i ddatgymhwyso disgybl o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan adolygu'r angen i ddatgymhwyso ar sail unigol a gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sylweddol is na'r lefelau disgwyliedig ar unrhyw Gyfnod Allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r rhaglen yn unol â hynny. Mae digon o hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm i fodloni gofynion dysgwr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwr unigol, fel arfer ar sail dros dro, ond ni ddylid datgymhwyso ar lefel grŵp.

Am fwy o wybodaeth am ddatgymhwyso a'r amgylchiadau lle gelir gwneud hyn, gweler "Datgymhwyso dros dro" yn Atodiad D (tudalen 20) y **trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.**







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Iaith yr ysgol

| | Ysgolion Cynradd | Ysgolion Uwchradd |
|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | Mae disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ond mae rhywfaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gyfathrebu gyda'r disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. | |
| Cyfrwng Cymraeg | Mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir mewn busnes o ddydd i ddydd yn yr ysgol, cyfathrebu gyda'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol. | Mae pob pwnc heblaw Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a defnyddir fel iaith cyfathrebu gyda'r disgyblion ac ar gyfer gweinyddu yn yr ysgol. |
| Dwy ffrwd | Mae'r Gymraeg a Saesneg yn bodoli ochr yn ochr. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ym musnes beunyddiol yr ysgol ac i gyfathrebu gyda'r disgyblion. | |
| Dwyieithog | Mae'r categori hwn yn cynnwys pedair isadran yn unol â'r canran o bynciau sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a pha un a oes darpariaeth gyfochrog yn y Saesneg. | |
| Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg | Mae disgyblion yn cael eu haddysgu yn y ddwy iaith, gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i addysgu rhwng 20% a 50% o'r cwricwlwm cyffredinol.<br>Mae iaith feunyddiol yr ysgol yn cael ei phennu yn ôl cyd-destun ieithyddol yr ysgol – defnyddir y ddwy iaith fel ieithoedd cyfathrebu gyda'r disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol. | Mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu. Byddai'r mwyafrif o bynciau yn cael eu haddysgu drwy'r Saesneg, gyda rhwng 20% a 50% o bynciau yn cael e haddysgu drwy'r Gymraeg.<br><br>Mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu gyda'r disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol |
| Cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o Saesneg | Mae disgyblion yn cael eu haddysgu yn y ddwy iaith, gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg (50% i 70% o'r cwricwlwm).<br>Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir mewn busnes beunyddiol yn yr ysgol a rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. | |

## Lwfans Ysgol Ddydd Gogledd Cymru

Gall Lwfans Ysgol Ddydd Gogledd Cymru fod ar gael i bersonél y Lluoedd Arfog cymwys sy'n gwasanaethu mewn swydd sefydledig mewn uned gymwys. Mae'n rhaid i deuluoedd y Lluoedd Arfog fod yn breswylwyr o fewn y siroedd penodol yng Ngogledd Cymru a diwallu'r holl feini prawf fel y nodir o fewn polisi y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) (dylai personél y Lluoedd Arfog gyfeirio at Uned AD neu gyfatebol ar gyfer y Lluoedd Arfog am wybodaeth). Mae'r lwfans wedi'i ddylunio'n benodol i ganiatáu i blant sy'n symud i Ogledd Cymru, yn dilyn lleoliad, i fynychu ysgol ddydd annibynnol yn lle ysgol ddydd a gynhelir (cymuned/sylfaen/gwirfoddol) sy'n gweithredu'r polisi addysgu cyfrwng Cymraeg; e.e. ble mae'r holl bynciau heblaw Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwy o wybodaeth ar ystyriaethau addysg ar gael drwy y Weinyddiaeth Amddiffyn [Children's Education Advisory Service (CEAS)].



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymharu Addysg

*"3.1 Pan ofynnwyd i deuluoedd y Lluoedd Arfog beth oeddent yn deimlo yr oedd ysgolion yn ei chael yn heriol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, roedd 44% wedi nodi: dealltwriaeth o'r systemau addysg gwahanol ledled y DU."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

## Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

Mae Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhan o Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc. Maent yn darparu addysg i blant staff y Lluoedd Arfog a dinasyddion cymwys Y Weinyddiaeth Amddiffyn, contractwyr cymwys a thalwyr ffioedd. Mae'r rhan fwyaf o Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn dramor, gydag un ysgol yn Yr Alban sy'n dilyn y cwricwlwm a'r fframwaith cymwysterau Albanaidd. Mae lleoliadau amrywiol Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ymrwymiad eu staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â chwricwlwm cyfoethog tra byddant dramor. Mae Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adlewyrchu system addysg Lloegr, gan gynnwys arolygiadau, asesiadau ac arholiadau Ofsted. Mae'r rhai o'r lleoliadau hyn yn Brunei a Cyprus.

Mae angen cliriad addysgol ar bob plentyn 0-18 cyn postio i swyddi tramor. Mae hyn yn cynnwys postiadau i ardaloedd ysgol y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ysgolion y tu allan i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd Cyfarwyddiaeth Plant yn gofyn i ysgolion gwblhau ffurflen cymorth i fyfyrwyr sy'n cefnogi addysg dramor (EOS) ar gyfer unrhyw blant gwasanaeth sydd ar fin symud dramor fel rhan o'r broses o bostio eu rhieni. Heb EOS ni fydd modd i'r postio fynd ymlaen a gall olygu bod y teulu yn cael eu gwahanu oddi wrth y person gweini am gyfnod o amser.

## Cwricwlwm

Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022)

### Gwahaniaethau rhwng cwricwla

| | Cymru | Lloegr | Yr Alban |
|---|---|---|---|
| Y Cyfnod Sylfaen | Symud i gwricwlwm statudol newydd erbyn 2022<br><br>https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad | Mae saith maes dysgu a datblygu y mae rhaid iddynt siapio rhaglenni addysgol mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar:<br><br>• Cyfathrebu a iaith<br>• Datblygiad Corfforol<br>• Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol<br>• Rhaid i ddarparwyr hefyd gefnogi plant mewn pedwar maes penodol, bydd y tri prif faes yn cael eu cryfhau a'u cymhwyso drwyddynt.<br><br>Y meysydd penodol yw:<br><br>• Llythrennedd<br>• Mathemateg<br>• Deall y byd<br>• Celf a dylunio mynegiannol<br><br>www.foundationyears.org.uk/files/2017/03/EYFS_STATUTORY_FRAMEWORK_2017.pdf<br><br>SYLWER: Mae fframwaith statudol Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn newid o fis Medi 2021, fydd yn arwain at newidiadau mewn disgwyliadau asesiad statudol ac ym manylion y cwricwlwm. | Mae wyth maes cwricwlwm:<br><br>• Celf mynegiannol<br>• Iechyd a Lles<br>• Ieithoedd (gan gynnwys Saesneg, Gaeleg yr Alban, dysgwyr Gaeleg a ieithoedd modern)<br>• Mathemateg<br>• Addysg grefyddol a moesol<br>• Gwyddorau<br>• Astudiaethau Cymdeithasol<br>• Technolegau<br><br>Caiff llythrennedd, rhifedd, iechyd a lles eu cydnabod fel bod yn arbennig o bwysig.<br><br>www.gov.scot/publications/early-years-framework/pages/1/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 1 | Fel yr uchod | Pynciau craidd:<br>• Saesneg<br>• Mathemateg<br>• Gwyddorau<br><br>Pynciau craidd:<br>• Dylunio a Thechnoleg<br>• Hanes<br>• Daearyddiaeth<br>• Celf a Dylunio<br>• Cerddoriaeth<br>• Addysg Gorfforol, gan gynnwys nofio<br>• Cyfrifiadureg.<br><br>Rhaid i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol ond gall rhieni holi i'w plant gael eu tynnu allan o ran o'r wers, neu'r wers gyfan.<br><br>Bydd Addysg Perthnasau a Rhyw yn dod yn statudol ym mhob ysgol o fis Medi 2020.<br><br>Mae ysgolion hefyd yn dysgu:<br><br>• Addysg Bersonol, Cymdeithasol a Iechyd<br>• Dinasyddiaeth<br>• Ieithoedd tramor modern<br><br>assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/335186/PRIMARY_national_curriculum_-_English_220714.pdf | Fel yr uchod<br><br>Dilynwch y ddolen hon i gael mwy o wybodaeth:<br>www.education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/curriculum-areas |
| Cyfnod Allweddol 2 | Fel yr uchod | Fel Cyfnod Allweddol 1<br><br>• Ieithoedd tramor modern neu hynafol (Cyfnod Allweddol 2) | Fel yr uchod |
| Cyfnod Allweddol 3 a 4 | Cwricwlwm i Gymru (2022)<br><br>• Blwyddyn 7 yn statudol o 2022<br>• Cyflwyno'n raddol ar draws grwpiau blwyddyn o 2023.<br><br>https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad | Pynciau craidd:<br>• Saesneg<br>• Mathemateg<br>• Gwyddoniaeth<br><br>Pynciau sylfaen:<br>• Celf a Dylunio<br>• Dinasyddiaeth<br>• Cyfrifiadureg.<br>• Dylunio a Thechnoleg<br>• Ieithoedd<br>• Daearyddiaeth<br>• Hanes<br>• Cerddoriaeth<br>• Addysg Gorfforol<br><br>Rhaid i bob ysgol hefyd ddysgu Addysg Grefyddol ym mhob Cyfnod Allweddol a darparu addysg rhyw a pherthnasau.<br><br>assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381754/SECONDARY_national_curriculum.pdf | Hyd at 14 oed – fel yr uchod<br><br>Mae'r Cwricwlwm Cyfnod Uwch, o S4 i S6 (tua 15 i 18 oed) yn dilyn addysg gyffredinol person ifanc, gan adeiladu ar y profiadau a'r canlyniadau byddant wedi eu profi a'u cyflawni erbyn diwedd S3.<br><br>Mae'n eu galluogi i ymestyn a dyfnhau eu dysgu a pharau i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith, drwy gymwysterau a thrwy amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol (er enghraifft, profiad gwaith neu wirfoddoli). |

## Gwahaniaeth mewn grwpiau blwyddyn ysgol

| Oedran yn y flwyddyn ysgol | Cymru<br>Cwricwlwm i Gymru 2022 | Lloegr<br>Cwricwlwm Cenedlaethol | Gogledd Iwerddon<br>Cwricwlwm Gogledd Iwerddon | Yr Alban<br>Cwricwlwm er Rhagoriaeth (CfE) |
|---|---|---|---|---|
| 4–5 | Derbyn | Derbyn<br>Cyfnod Sylfaen | P1 | Lefel Meithrin / Cynnar |
| 5–6 | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 1<br>Cyfnod Allweddol 1 | P2 | P1 (Lefel Cynnar) |
| 6–7 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 2<br>Cyfnod Allweddol 1 | P3 | P2 (Lefel Cyntaf) |
| 7–8 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 3<br>Cyfnod Allweddol 2 | P4 | P3 (Lefel Cyntaf) |
| 8–9 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 4<br>Cyfnod Allweddol 2 | P5 | P4 (Lefel Cyntaf) |
| 9–10 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 5<br>Cyfnod Allweddol 2 | P6 | P5 (Ail Lefel) |
| 10–11 | Blwyddyn 6 | Blwyddyn 6<br>Cyfnod Allweddol 2 | P7 | P6 (Ail Lefel) |
| | | | | P7 (Ail Lefel) |
| Uwchradd + | | | | |
| 11–12 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7<br>Cyfnod Allweddol 3 | P8 | S1 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 12–13 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 8<br>Cyfnod Allweddol 3 | P9 | S2 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 13–14 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 9<br>Cyfnod Allweddol 3 | P10 | S3 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 14–15 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 10<br>Cyfnod Allweddol 4 | P11 | S4 (Cyfnod Uwch) Gall disgyblion adael y flwyddyn hon, o 15 a hanner oed ymlaen |
| 15–16 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 11<br>Cyfnod Allweddol 4 | P12 | |
| Lefel A a 'SCE Highers' - ddim yn orfodol | | | | |
| 16–17 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 12 | P13 | S5 (Cyfnod Uwch) |
| 17–18 | Blwyddyn 13 | Blwyddyn 13 | P14 | S6 (Cyfnod Uwch) |
| | | | | Mae cyrsiau gradd is raddedig yn Yr Alban yn bedair blynedd o hyd. Mae rhai pobl ifanc yn cychwyn arnynt yn 17 |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Amserlen tymor ysgol

Mae dyddiadau amser tymor yn cael eu gosod gan awdurdodau lleol unigol yng Nghymru yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae pob awdurdod lleol yn cyhoeddi copi o'u hamserlen tymor ysgol ar eu gwefan yn flynyddol.

**Gwahaniaethau mewn amserlen amser tymor**

Mae'r dyddiadau canlynol yn enghraifft, yn seiliedig ar ddyddiadau amser tymor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22.

| | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|
| Dechrau tymor yr Hydref | 2 Medi | 1 Medi | 2 Medi | 11 Awst |
| Hanner tymor yr Hydref | 25-29 Hydref | 25-29 Hydref | 25-29 Hydref | 12-17 Hydref |
| Diwedd tymor yr Hydref | 17 Rhagfyr | 17 Rhagfyr | 17 Rhagfyr | 18 Rhagfyr |
| Dechrau tymor y Gwanwyn | 4 Ionawr | 4 Ionawr | 4 Ionawr | 5 Ionawr |
| Hanner tymor y gwanwyn | 21-25 Chwefror | 14-18 Chwefror | 21-25 Chwefror | 12-14 Chwefror |
| Diwedd tymor y Gwanwyn | 8 Ebrill | 1 Ebrill | 8 Ebrill | 1 Ebrill |
| Dechrau tymor yr Haf | 25 Ebrill | 19 Ebrill | 25 Ebrill | 19 Ebrill |
| Hanner tymor yr Haf | 30 Mai i 3 Mehefin | 30 Mai i 3 Mehefin | 30 Mai i 3 Mehefin | 30 Mai i 3 Mehefin |
| Diwedd tymor yr Haf | 22 Gorffennaf | 25 Gorffennaf | 22 Gorffennaf | 23 Mehefin |







NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Darpariaeth addysg arall

Mae'n bosibl na fydd y **cwricwlwm newydd i Gymru (2022)** yn berthnasol i rai o'r lleoliadau a fanylwyd isod.

## Ysgol arbennig

Mae ysgolion arbennig yno i ddarparu addysg i rai plant ag ADY cymhleth ac/neu anableddau. Maent yno i wneud yn siŵr bod anghenion eu disgyblion yn cael eu diwallu pan nad yw addysg prif ffrwd yn addas i'w plentyn. Yng Nghymru mae gennym 41 o ysgolion arbennig.

## Unedau Cyfeirio Disgyblion

Mae uned cyfeirio disgyblion yn fath o ysgol a sefydlwyd a chynhaliwyd gan awdurdod lleol i ddarparu addysg amgen i blant a phobl ifanc sydd, oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, ddim yn derbyn addysg prif ffrwd. Yr "athro sy'n gyfrifol" yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu'r uned o ddydd i ddydd. Mae'r Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd yn cael eu rheoli gan bwyllgorau rheoli, tebyg i gyrff llywodraethu ysgol.

## Ysgolion annibynnol

Mae ysgol annibynnol yn ysgol sy'n annibynnol o ran cyllid a llywodraethu; nid yw'n dibynnu ar lywodraeth leol na chenedlaethol o ran ariannu ei weithredoedd, nac yn dibynnu ar gyfraniadau trethdalwr. Yn hytrach mae'n cael ei ariannu gan gyfuniad o ffioedd tiwtora, rhoddion ac mewn rhai achosion buddsoddiad arenillion gwaddol. Mae ysgolion annibynnol yn cael eu llywodraethu gan fwrdd o gyfarwyddwyr sy'n cael ei ethol drwy ddull annibynnol a system o lywodraethu sy'n sicrhau gweithrediad annibynnol.

***"Efallai y bydda i'n mynd i ysgol breswyl fel nad wyf yn newid ysgol bob yn ail flwyddyn. Byddaf yn bendant yn methu fy rhieni, ond byddaf yn gyrru ymlaen. Ar gyfer fy addysg byddai'n well, byddwn yn defnyddio'r un dulliau yn hytrach na dysgu rhai newydd bob blwyddyn gan nad yw'n dda ar gyfer fy addysg."***

**Ryan, un o blant y Lluoedd Arfog**



## Parhad Lwfans Addysg

Gall teuluoedd y Lluoedd Arfog fod yn gymwys am Lwfans Parhad Addysg Y Weinyddiaeth Amddiffyn, fydd yn darparu cyfran o'r ffioedd ar gyfer plant y Lluoedd Arfog i fynychu ysgol breswyl. Nod y gronfa yw darparu parhad addysg i blant y Lluoedd Arfog fyddai fel arfer yn profi symud ysgol yn rheolaidd o ganlyniad i ymrwymiad eu rhieni sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Am fwy o wybodaeth ar ymgeisio am y CEA a dod o hyd i ysgolion preswyl a nodwyd gan Wasanaeth Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn, ewch i: **www.gov.uk/government/groups/the-childrens-education-advisory-service-ceas**.

# Blynyddoedd cynnar/gofal plant

Mae'r blynyddoedd cynnar yn cael eu diffinio yng Nghymru fel cyfnod bywyd rhwng cyn geni i ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, neu 0 i 7 mlwydd oed. Mae Cyfnod y Sylfaen yn gwrícwlwm cyfannol i blant rhwng tair a saith mlwydd oed. Mae wedi'i lunio i ddiwallu anghenion pob plentyn yn ôl hynt ei ddatblygiad unigol.




## Cynnig gofal plant Cymru

Yn rhoi cyfuniad o ofal plant ac addysg gynnar i rieni ar gyfer eu plant tair a phedair oed. Gelwir addysg gynnar hefyd yn 'Ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen'. Mae'n cael ei darparu'n bennaf gan ysgolion lle bydd plant yn dysgu drwy chwarae.

**Mae gofal plant yn cynnwys:**

- Meithrinfeydd
- Gwarchodwyr plant
- Grwpiau chwarae
- Crèche
- Gofal plant y tu allan i'r ysgol
- Nanis.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed](llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed)




## Gofal Plant di-dreth

Gall teuluoedd gael hyd at £500 bob tri mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) i bob plentyn i'w helpu gyda chostau gofal plant.

Gellir cael mynediad i gefnogaeth gofal plant di-dreth yn ogystal â'r cynnig gofal plant yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.gov.uk/get-tax-free-childcare](www.gov.uk/get-tax-free-childcare)

# Addysg ôl-16

## Addysg bellach

Yn yr un modd â meysydd addysg eraill, mae cyfrifoldeb am gynllunio a darparu addysg bellach yng Nghymru wedi'i ddatganoli i raddau helaeth bellach.

Mae Addysg Bellach yn cael ei darparu yn gyffredinol mewn colegau i fyfyrwyr dros 16 oed. Mae addysg ôl-16 neu addysg 'bellach' yn cwmpasu gwahanol fathau o addysg a hyfforddiant sy'n addas i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol. Canolbwyntir yn bennaf ar y rhai 16 i 18 oed ond gall unrhyw un dros oedran ysgol gorfodol fanteisio ar addysg bellach. Yn nodweddiadol, mae cyrsiau am ddim i fyfyrwyr 16 i 18 oed gyda ffi cofrestru.

## Addysg uwch

Mae Addysg Uwch yn addysg trydydd lefel ar ôl i chi adael yr ysgol neu'r coleg yn 16-+. Mae'n digwydd yn y prifysgolion a cholegau addysg bellach ac fel arfer yn cynnwys israddedigion ac astudiaethau ôl-raddedig.

Mae yna wyth prifysgol yng Nghymru. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu, yn bennaf yn rhan amser. Mae tua 25,000 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 145 gwlad ledled y byd mewn addysg uwch yng Nghymru – sy'n cyfrif am 19% o'r boblogaeth myfyrwyr. Mae prifysgolion Cymru yn cynnig ystod eang o ddewisiadau cyllid i gefnogi myfyrwyr. Mae ffioedd dysgu yn amrywio rhwng cyrsiau a darparwyr a gall **https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/** ddarparu cyllid i gefnogi myfyrwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.



## CCAUC

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAU) yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n rheoleiddio ac ariannu prifysgolion a rhai colegau yng Nghymru. Mae Strategaeth Gorfforaethol CCAU yn gosod ei weledigaeth, cenhadaeth ac amcanion i ariannu a rheoleiddio darparwyr addysg uwch, yn ogystal â dylanwadu addysg uwch yng Nghymru gyda chyngor ar sail tystiolaeth gweithio mewn partneriaeth gadarn, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr.

CCAUC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad (tebyg i Gynlluniau Mynediad a Chyfranogiad yn Lloegr). Mae cynlluniau ffioedd a mynediad yn gosod ymrwymiadau darparwyr addysg uwch i gefnogi cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn yn cefnogi ehangu mynediad a than-gynrychiolaeth mewn addysg uwch. Er bod CCAUC yn darparu rhywfaint o arweiniad ar grwpiau sy'n cael eu hystyried wedi eu tangynrychioli, gan gynnwys plant personél y Lluoedd Arfog, sefydliadau sy'n blaenoriaethu'r grwpiau maen nhw'n eu hystyried sydd wedi eu tangynrychioli mewn addysg uwch.

*"Ehangu mynediad i mewn a thrwy addysg uwch"* yw'r term a ddefnyddir yng Nghymru i ddiffinio bwriadau strategol a fframio amcanion yn y maes polisi hwn. Ar draws y DU mae diffiniadau, targedau a mesurau eraill yn cael eu defnyddio.

Mae dwy o'r wyth prifysgol yng Nghymru yn cyfeirio'n benodol at y Lluoedd Arfog yn y wybodaeth a ddarperir ar eu gwefannau i ymgeiswyr ar gael mynediad i addysg uwch, ynghyd â gwybodaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog i gymunedau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.hefcw.ac.uk**

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor




Profiadau plant y Lluoedd Arfog

Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Byw yng Nghymru

Addysg yng Nghymru

Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor

Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cefnogaeth ysgol

# Cynnwys

## Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor

[Cyflwyniad 53](#)
[Derbyniadau Ysgol 53](#)
[Symud ysgol 56](#)
[Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor 58](#)

# Cyflwyniad

Mae'r Tîm Derbyniadau Ysgol ac adran absenoldeb yn ystod y tymor Canllaw Teuluoedd Milwyr SSCE Cymru yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â pholisïau cenedlaethol ac unigol a allai fod yn berthnasol i deuluoedd Milwyr. Gallai gwybodaeth am dderbyniadau ysgolion hefyd fod yn ddefnyddiol i deuluoedd Milwyr sy'n symud i Gymru am y tro cyntaf. Mae'r canllaw hefyd yn darparu gwybodaeth i deuluoedd wrth symud rhwng cartrefi ac ysgolion. Darperir trosolwg absenoldeb yn ystod y tymor er mwyn rhoi dealltwriaeth i deuluoedd Milwyr o beth allai fod ar gael mewn ysgolion unigol yng Nghymru.

# Derbyniadau Ysgol

## Adnabod plant Milwyr

Yn Adroddiad Blynyddol Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru 2018, gwnaeth Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, yr ymrwymiad i gasglu data ar blant y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae SSCE Cymru a'r Teuluoedd y Lluoedd Arfog a Diogelu yn cefnogi Llywodraeth Cymru i roi'r newid hwn ar waith.

*"Dywedodd dros un rhan o dair o ysgolion nad oeddynt yn gwybod faint o blant Milwyr oedd ar eu cofrestr."*

Arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"3.2.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr pa gymorth yn eu barn nhw fyddai'n fanteisiol i'w plentyn/plant, nododd 61% y byddai adnabod plant Milwyr yn ystod y broses dderbyn yn fanteisiol"*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Gweithgaredd casglu data SSCE Cymru (2021)

Gweithiodd y **Swyddogion Cyswllt Ysgolion ar gyfer Plant Milwyr** gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ymgysylltu gydag ysgolion a rhoi cipolwg cyfredol o addysg plant Milwyr yng Nghymru. Nodwyd fod dros 2,000 o blant Milwyr mewn oddeutu 500 o ysgolion. Nid oedd gan bron hanner yr ysgolion hynny ond un neu ddau o blant Milwyr.

Am y cofnod diweddaraf o'r data hwn, cliciwch **yma**.

## Cod Derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru

Mae angen i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ddilyn y canllaw a ddarperir yng Nghod Derbyniadau Ysgolion y gellir ei weld **yma**.

Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ac yn cynnig canllaw i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phaneli apêl derbyn. Rhaid i'r cyrff weithredu'n unol â'r Cod.

**Cyfeirir at blant y Lluoedd Arfog mewn pedwar lle yn y cod:**

| Adran y cod | Tudalen | Cynnwys | Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer derbyniadau ALI |
|---|---|---|---|
| Dalgylchoedd | 16 | 2.54 *"O ran plant pobl yn Lluoedd Arfog y DU, rhaid i awdurdodau derbyn drin teulu sy'n symud i'r ardal fel petaent yn bodloni meini prawf preswylio ar gyfer dalgylch yr ysgol berthnasol ar ôl iddynt ddangos prawf o'u lleoliad, hyd yn oed os nad oes cyfeiriad ganddynt yn yr ardal ar y pryd."* | Rhaid i ALI dderbyn ffurflenni cais i ysgolion oddi wrth deuluoedd Lluoedd Arfog nad ydynt ar hyn o bryd yn byw yn y dalgylch. |
| Y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod | 27-28 | 3.48 *"Oni ellir rhoi addysg i fathau arbennig o blant ("plant a eithrir") yn yr ysgol mewn dosbarth babanod arall lle na chroesir y terfyn heb gymryd camau perthnasol a fyddai'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, ni cheir cyfrif y plant hynny at ddibenion penderfynu a yw'r terfyn o 30 disgybl wedi'i groesi ai peidio. Plant a eithrir yw:*<br><br>*6. Plant y mae eu rhiant yn y Lluoedd Arfog ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol."* | Caiff plant personél y Lluoedd Arfog sydd i'w derbyn i ddosbarth babanod tu allan i'r rownd dderbyn arferol (canol blwyddyn) eu categoreiddio fel disgybl eithriedig, sy'n golygu y gall ALI fynd dros y terfyn o 30 disgybl. |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) | 31 | *3.66 "Rhaid i awdurdodau derbyn:*<br>• *Sicrhau bod anghenion plant y teuluoedd hyn yn cael eu hystyried.*<br>• *Neilltuo lle iddynt mewn ysgol ymlaen llaw, petai'r ymgeisydd yn ateb y meini prawf ar ôl symud i'r gyrchfan.*<br>• *Gwahodd cynrychiolydd o'r Lluoedd neu gynrychiolwyr crynodiadau sylweddol eraill o Weision y Goron i ymuno â'r fforwm derbyn.*<br>• *Derbyn cyfeiriad post Uned ar gyfer ceisiadau gan aelodau'r lluoedd os nad oes ganddynt gyfeiriad post cartref newydd."*<br><br>*3.67 "Rhaid i awdurdodau derbyn beidio â:*<br>• *Chadw lleoedd ar gyfer blociau o'r plant hyn, na*<br>• *Gwrthod lle i blentyn o'r fath am nad yw'r teulu'n byw yn ardal yr ALl ar y pryd."* | |
| Atodiad D: Fforymau Derbyn | 41 | *D.10 "Gall aelodaeth graidd pob fforwm ofyn i'r ALl benodi unrhyw un y mae'n ei ystyried yn briodol i gynrychioli buddiannau sylweddol yn y gymuned leol. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle ceir crynodiad sylweddol o'r Lluoedd Arfog, rhaid i'r fforwm wahodd cynrychiolydd o luoedd y DU, a lle bo hynny'n briodol, dylid penodi cynrychiolwyr grwpiau ffydd nad ydynt eisoes wedi'u cynrychioli, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig."* | Dylai ALl gyda chymunedau sylweddol o'r lluoedd arfog wahodd cynrychiolydd o'r Lluoedd Arfog i ymuno â'u fforwm derbyniadau. Mae ALl sydd â chymunedau sylweddol o'r lluoedd arfog yn cynnwys:<br><br>• Ynys Môn<br>• Sir Benfro<br>• Powys<br>• Dyffryn Morgannwg. |

## Derbyniadau'r awdurdod lleol

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yn Nghymru broses ymgeisio a fforwm derbyniadau ysgolion. Am wybodaeth ar bob un o'r awdurdodau lleol, gan gynnwys eu polisïau a'u gwybodaeth cysylltu, gweler Cyfeiriadur Cefnogaeth SSCE Cymru.

## Apeliadau

Bydd teuluoedd Milwyr nad ydynt wedi gallu cael lle priodol mewn ysgol i'w plentyn / plant yn gallu apelio drwy broses apelio'r awdurdod lleol, a fydd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Gweler y Cyfeiriadur Cefnogaeth am ddolenni at holl safleoedd derbyniadau'r awdurdodau lleol.

Mae Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cyngor, canllawiau a chymorth i deuluoedd Milwyr ar amrywiaeth eang o faterion addysgiadol, gan gynnwys derbyniadau ysgolion ac apeliadau derbyn i ysgolion. Mae'r cymorth a gynigir gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant yn bwrpasol, a'r holl gyngor yn canolbwyntio ar y plentyn a beth sydd orau er lles yr unigolyn. Mae SSCE Cymru yn argymell fod teuluoedd Milwyr yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant yn uniongyrchol er mwyn cael mynediad at gymorth a chyngor ar apeliadau derbyn ysgolion.

# Symud ysgol

## Trosglwyddo data cofnodion ysgol

*"3.2 Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r tair her fwyaf arwyddocaol sy'n eu hwynebu wrth gefnogi eu plant Lluoedd Arfog, nododd dros 33% o ysgolion uwchradd: Cael gwybodaeth am blentyn lluoedd arfog o'r ysgol flaenorol."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"4.2.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr pa gefnogaeth yn eu barn nhw fyddai wedi helpu eu plentyn / plant i setlo i gymuned ac ysgol newydd, nododd 50% y byddai trosglwyddo cofnodion yn sydyn rhwng ysgolion yn sicrhau nad oedd unrhyw fylchau mewn anghenion cymorth ychwanegol."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Mae'r ddarpariaeth yn y **Rheoliadau Gwybodaeth Disgyblion** ar gyfer trosglwyddo cofnodion addysgol yn ddiogel pan fo disgybl yn newid ysgolion yn berthnasol i bob ysgol ledled y DU ac yn cwmpasu trosglwyddiadau o ysgolion a gynhelir i academïau, ysgolion rhydd ac ysgolion annibynnol.

Mae'n ofynnol i ysgolion gadw a diweddaru cofnodion cwricwlaidd ac addysgol disgyblion a sicrhau y gall rhieni gael mynediad at gofnodion eu plant. Rhaid i ysgolion hefyd drosglwyddo cofnod addysgol disgybl pan fo plentyn yn newid ysgol, ac mae'r rheoliadau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei throsglwyddo'n ddiogel gan ddefnyddio system **school-2-school** a ffeil drosglwyddo gyffredin yr Adran Addysg. Rhaid gwneud hyn cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl i ddisgybl roi'r gorau i gofrestru yn yr hen ysgol.

Mae SSCE Cymru yn argymell bod ysgolion yn annog disgyblion newydd i ddod â gwaith o'u hysgol flaenorol a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn ar gynnydd cynnar ac asesiadau cyflym i sefydlu llinellau sylfaen a phennu blaenoriaethau dysgu.

Gall ysgolion a rhieni ddefnyddio Offer SSCE Cymru i gynorthwyo gyda phontio esmwyth ar gyfer plant y Lluoedd Arfog.






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Cymorth wrth symud

Mae Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi dogfen o'r enw Moving Schools: A Parent's Guide i helpu teuluoedd pan fydd teuluoedd Milwyr yn symud rhwng ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant hefyd yn gallu darparu cyngor a chyfarwyddyd i gefnogi teuluoedd Milwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng ysgolion.

Mae SSCE Cymru wedi cynhyrchu nifer o adnoddau i ysgolion a theuluoedd Milwyr er mwyn cefnogi'r broses drosglwyddo.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adnodd 5: Templed: Pecyn croeso yr ysgol
- Adnodd 6: rhestr gyfeirio: Trosglwyddo i mewn ac allan o ysgol
- Adnodd 7: Enghreifftiau o gwestiynau: i ofyn i blant Milwyr newydd
- Adnodd 14: Templed: Llyfryn symud ysgol (i blant Milwyr)
- Adnodd 15: Templed: Gwybodaeth am symud ysgol i blant Milwyr.

*"Mae ein trefniadau pontio ar draws y clwstwr yn gadarn iawn ac rydym yn sicrhau y gall disgyblion symud yn ddidrafferth ar draws y clwstwr... Rydym yn canolbwyntio ar bontio cymdeithasol, ac mae'n bwysig iawn i fyfyrwyr yr MOD ein bod yn barod a bod gennym wybodaeth am y disgyblion."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr**

## Profiadau pontio

Yn y pen draw bydd holl bersonél y Lluoedd Arfog yn dychwelyd i fywyd sifiliaid, boed hynny ar ddiwedd eu hymgysylltiad ffurfiol neu yn gynnar oherwydd ymrwymiadau teuluol, rhesymau iechyd neu amgylchiadau na ragwelwyd. Gall gadael y Lluoedd Arfog a dychwelyd i gymdeithas sifiliaid achosi straen. Efallai y bydd gwahaniaethau diwylliannol yn golygu bod rhaid gwneud addasiadau personol.





*"Mae symud yn ddychrynllyd."*

*"Mae'n anodd dod i arfer efo symud, dydw i ddim yn hoffi pacio drwy'r amser."*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor

*"3.2.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr pa gymorth yn eu barn nhw fyddai'n fanteisiol i'w plentyn / plant, nododd 81% y byddai polisi absenoldeb yn ystod y tymor ar gyfer plant Milwyr yn fanteisiol."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

Mae pŵer gan Benaethiaid i awdurdodi gwyliau ar gyfer gwyliau teulu yn ystod y tymor os yw rhieni yn ceisio caniatâd.


Os nad oes polisi absenoldeb yn ystod y tymor gan ysgol eisoes sy'n cynnwys amgylchiadau ar gyfer plant Milwyr a'u teuluoedd, efallai eu bod am ystyried:

- Sicrhau ble bo'n bosib bod ystyriaeth yn cael ei roi i deuluoedd Milwyr nad ydynt o bosib y gallu cymryd gwyliau gyda'i gilydd ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn ysgol
- Annog teuluoedd Milwyr i ddweud wrth yr ysgol pryd maent yn bwriadu cymryd eu plant allan o'r ysgol yn ystod tymor yr ysgol am wyliau neu resymau eraill sy'n ymwneud ag ymrwymiadau'r Lluoedd Arfog.

Dylai pennaeth ystyried amser y flwyddyn y trip arfaethedig, hyd, a diben y gwyliau, effaith ar barhad dysgu, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni yn ogystal â phatrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn.

Mae rhai ysgolion wedi datblygu systemau lle mae Milwyr yn darparu llythyr gan eu huned gyda chadarnhad o'r angen i fod yn absennol. Ni fyddai'r pennaeth yn awdurdodi absenoldeb yn ystod y tymor heb gadarnhad.




*"Rydym ni'n defnyddio Facetime weithiau."*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol



# Cynnwys

**Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Cyflwyniad 61

Iechyd meddwl a lles 61

Anghenion Dysgu Ychwanegol 64

# Cyflwyniad

Mae adran Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Arweiniad Teuluoedd Milwyr SSCE Cymru yn cynnwys gwybodaeth all fod yn ddefnyddiol i deuluoedd sy'n symud i Gymru am y tro cyntaf neu angen mynediad i gymorth ychwanegol i'w plentyn/plant. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth lles y mae ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru yn eu darparu. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys manylion y Cod ADY newydd i Gymru. Mae'r arweiniad sy'n cydnabod bod llawer o deuluoedd Milwyr wedi symud neu yn symud rhwng gwahanol wledydd a systemau addysg yn darparu terminoleg i deuluoedd Milwyr 'w cymharu â chenhedloedd gwahanol yn y DU a hefyd yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael.

# Iechyd meddwl a lles



## Beth yw iechyd meddwl a lles?

*"Nid diffyg anhwylder meddwl yn unig yw iechyd meddwl. 'cyflwr lles lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn ffrwythlon, ac yn gallu gwneud cyfraniad i'w gymuned."*

Sefydliad Iechyd y Byd

*"3.1 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr yr hyn yr oedd ysgolion yn ei gweld fwyaf heriol gyda chefnogi plant Milwyr, dywedodd 56% mai'r her fwyaf oedd cefnogi plant Milwyr gyda'u hanghenion emosiynol a lles."*

Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)

*" Dw i'n defnyddio'r jar pryderon ac yn rhoi fy mhryderon ynddo. "*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Darpariaeth lles awdurdodau lleol

*4.4 7% o ysgolion wedi nodi eu bod wedi cael problemau yn cwrdd â throthwyon blaenoriaethu ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl a lles i blant Milwyr. Mae hyn yn uwch, yn 11% wrth edrych ar bedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Cyngor Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg)."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Ymwelwch â gwefannau eich awdurdod lleol am fanylion yn ymwneud â darpariaeth leol yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Cwnsela Annibynnol – gan gynnwys mewn ysgolion a chymunedau
- Lles addysg
- Seicoleg addysg
- Cymorth ymddygiad
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd – maent yn darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor am ddim ar amrywiaeth o faterion teulu, yn cynnwys: gofal plant a chymorth gyda'r gost, gofal iechyd, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau hamdden a chyllid
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Gwasanaethau ieuenctid – maent yn cynnig cefnogaeth/eiriolaeth/gwasanaethau ataliol/ymyrraeth gynnar i bobl ifanc 11-25 oed.

## Cefnogaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae CAMHS yn darparu amrywiaeth o ymyraethau a thriniaethau, sydd yn cynnwys ymgynghoriad, asesiad seicolegol, asesiad datblygiadol, therapi teulu, therapi unigol, therapi ymddygiad, meddyginiaeth a gwaith grŵp. Mae'n cefnogi plant hyd at 17 oed.

Fel rhan o ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog, dylai unrhyw amser sydd wedi cronni ar restrau aros y GIG mewn un lleoliad gael eu hystyried wrth symud i ardal newydd. Y cyngor yw cael copïau o unrhyw dystiolaeth a thriniaeth feddygol ategol i'w rhoi i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol/ymarferydd newydd.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:** www.nhs.uk/using-the-nhs/nhs-services/mental-health-services/child-and-adolescent-mental-health-services-camhs/





**Atgyfeiriadau Llwybr Carlam i Blant Milwyr**

Mae rhai **Byrddau Iechyd** yng Nghymru wedi ymateb i'r adborth gan gydweithwyr y Fforwm Lluoedd Arfog i wella'r cynnig o flaenoriaethu gofal iechyd i blant Milwyr. Mae plant Milwyr yn cael eu rhoi ar y llwybr carlam trwy'r broses atgyfeiriad i gael mynediad i CAMHS.

Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad parhaus y bwrdd i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Caiff holl atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Pediatrig eu sgrinio er mwyn canfod os yw'r atgyfeiriad yn blentyn o deulu yn y Lluoedd Arfog.

> *"Pan fyddaf i'n flin byddaf yn defnyddio technegau myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar."*

## Darpariaeth lles ysgolion

> ***"3.2.2 Pan ofynnwyd i deuluoedd Milwyr am y gefnogaeth a fyddai o fudd i'w plentyn/plant, dywedodd 62% y byddai rhaglenni lles o fudd (h.y. Little Troopers) a dywedodd 61% y byddai cymorth bugeiliol/emosiynol/lles o fudd (h.y. ELSA/Nurture/Thrive/Cwnsela)."***
>
> **Canfyddiadau arolwg rhieni/gofalwyr SSCE Cymru (2020)**

Un o'r pedwar diben o gwricwlwm newydd Cymru yw unigolion *"iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas"*. **Iechyd a Lles** yw un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), sy'n golygu bod ysgolion angen canolbwyntio ac ystyried sut mae lles yn cael ei archwilio a'i ddatblygu mwy mewn pobl ifanc trwy addysgu a dysgu.

Mae'r ffordd y mae darpariaeth lles a'r ffyrdd o fesur lles yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae gan bob ysgol berson dynodedig sy'n gyfrifol am les.

Am ragor o wybodaeth gweler dogfen Llywodraeth Cymru **Thinking positively: Emotional health and well-being in schools and Early Years settings**.

Mae **pecynnau adnoddau** yn rhoi syniadau i ysgolion o strategaethau ac adnoddau y gellir eu defnyddio i gyflawni cefnogaeth lles priodol i blant milwyr mewn addysg yng Nghymru.



> *"Mi faswn i'n hoffi gwybod mwy am y llefydd y mae fy rhiant yn mynd iddyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud."*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Derbyniodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Mae'r **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Mae'r cod a rheoliadau ADY newydd wedi'u cyflwyno o flaen y Senedd i'w cymeradwyo ym Mawrth 2021.

## Cymharu terminoleg

| | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Beth yw ei enw? | Anghenion Dysgu Ychwanegol | Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd | Anghenion Cymorth Ychwanegol / Cymorth i Ddysgu | Anghenion Addysgol Arbennig | Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd |
| At bwy ddylwn i droi? | • Cydlynydd ADY | • SENCOM<br>• SENDCo***<br>• AENCo****<br>• Rheolwr Cynhwysiant | • Prif Athro ar gyfer ACY<br>• Athro arweiniad | • SENCOM | • SENCOM |
| Pa gynllun? | Cynllun / Datganiad Datblygu Unigol | Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal | Cynllun Cymorth Cydlynol | Datganiad AAA | RIAISEN*****<br>MASO****** |

***Cydlynydd ADY:** Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
****SENCOM:** Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig
*****SENDCo:** Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig ac Anableddau
******AENCo:** Cydlynydd Anghenion Addysg Ychwanegol
*******RIAISEN:** Cofnod o Adnabod, Asesu ac Ymyrraeth i ddisgyblion gydag Anghenion Addysg Arbennig
********MASO:** Asesiad Milwrol o Gefnogaeth Tramor

## Drafft y Cod Gorfodol Rhagfyr 2018

Bydd y Cod ADY yn dod yn ganllaw statudol ar gyfer darparwyr a lleoliadau addysg yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach, yn ogystal â phartneriaid allweddol ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen i ddarparwyr addysg feithrin nad ydynt yn cael eu cynnal, sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, hefyd dalu sylw i'r canllaw perthnasol yn y Cod ADY. Mae adrannau allweddol ohono yn cynnwys:

- **Pennod 5 – Dyletswydd i barhau i adolygu darpariaeth addysgu:** bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau sydd yn y Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio Darpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc â rhieni yn y Lluoedd Arfog sydd ag ADY.
- **Pennod 23 – Plant a Phobl Ifanc mewn Amgylchiadau Penodol:** mae hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â rhieni yn y Lluoedd Arfog.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan SSCE Cymru a'i gynnal gan Brifysgol De Cymru ac Ymchwil Arad yn edrych ar yr heriau o adnabod, asesu a gweithredu cefnogaeth ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru. Mae'n edrych ar effaith y cod ymarfer ALN newydd ar blant y Lluoedd Arfog sydd yn byw ac yn symud i Gymru.

**Mae'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:**

- Cyd-destun Polisi
- Adolygiad llenyddiaeth
- Adborth o Gynhadledd SSCE Cymru 2017
- Dadansoddi data arolwg o ysgolion
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol
- Meysydd ar gyfer ystyriaeth bellach

> ***"…. dylid nodi bod y ganran o blant y Lluoedd Arfog (6.1%) sy'n cael cymorth ar y lefel hon yn llai o lawer na chanran yr holl ddisgyblion (11.17%) yn y sampl gyfan. …mae'r gwahaniaeth o bum pwynt canran yn ddiddorol gan ei bod yn ymddangos ei fod yn ategu sylwadau a gafwyd yn ystod cam ansoddol yr ymchwil, lle'r oedd rhieni, ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi mynegi'r farn bod Anghenion Dysgu Ychwanegol plant y Lluoedd Arfog sydd â lefelau angen is yn fwy tebygol o beidio â chael eu hadnabod a'u diwallu. Un eglurhad posibl o hyn yw bod natur grwydrol y boblogaeth hon yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd unrhyw ddulliau dysgu gwahaniaethol cychwynnol yn cael eu gwerthuso a'u troi wedyn yn gymorth drwy Gweithredu gan yr Ysgol."***
>
> **Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018)**

Mae'r adroddiad llawn ar gael **yma**.

## Cyfarwyddiaeth Plant

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant** o fewn y Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu cyngor a chanllawiau i Rieni yn y Lluoedd Arfog, sefydliadau addysg ac awdurdodau lleol ar faterion addysgol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â rhieni yn y Lluoedd Arfog, waeth beth yw eu statws o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gan fod yr adnoddau sydd ar gael dramor yn wahanol i'r rhai yn y DU, mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cwblhau Assessment of Supportability Oveseas ar gyfer plant aelodau o'r lluoedd arfog sydd ag anghenion cymhleth cyn cytuno ar leoliad tramor.

Gall plant a phobl ifanc y mae eu rhiant/rhieni'n aelodau o'r Lluoedd Arfog wynebu anawsterau sy'n unigryw i natur cyflogaeth eu rhieni. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn codi o ganlyniad i:

- symud oherwydd gwasanaeth – efallai y bydd aelodau o'r lluoedd arfog yn adleoli'n amlach na gweddill y boblogaeth ac, weithiau, ar fyr rybudd. Bydd angen i drosglwyddiadau o'r fath gael eu rheoli'n dda er mwyn osgoi oedi wrth adnabod a diwallu ADY plant Milwyr.
- Anfon rhieni sy'n aelodau o'r lluoedd arfog i sefyllfaoedd gweithredol – er na fyddai hyn yn arwain at ADY ynddo'i hun, gallai arwain at bryder i blentyn neu berson ifanc a dirywiad yn ei berfformiad addysgol a/neu anawsterau emosiynol. Gall plant a phobl ifanc wynebu trafferthion tebyg hefyd os bydd eu brodyr neu eu chwiorydd yn cael eu hanfon ar leoliad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaethau-digartrefedd-i-bobl-ifanc-yn-yr-ystad-ddiogel**

## Cofrestru gyda Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn (CEAS)

Mae teuluoedd Milwyr yn cael eu hannog i ymrwymo gyda **CEAS** os yw unrhyw blentyn yn cael eu hadnabod i fod ag ADY sydd angen darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ac felly Cynllun Datblygu Unigol (CDU) neu sydd yn cael eu hadnabod i fod angen cymorth drwy gynllun 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' neu du hwnt. Bwriad cofrestru yw galluogi CEAS i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd Milwyr ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'w anghenion.

Am fanylion cyswllt, gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru**.





*"Mae bod efo pobl sy'n deall sut dw i'n teimlo yn helpu."*






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter**
**@SSCECymru**



ssce CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Cefnogaeth ysgol




Profiadau plant y Lluoedd Arfog

Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Byw yng Nghymru

Addysg yng Nghymru

Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor

Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cefnogaeth ysgol

# Cynnwys


**Cefnogaeth ysgol**

Cyflwyniad ........ 69
SSCE Cymru ........ 69
Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog ........ 73
Cyllid ........ 75


# Cyflwyniad

Mae adran cefnogaeth ysgol o Ganllaw Teulu Lluoedd Arfog Cymru Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog (SSCE) yn cynnwys trosolwg o'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yng Nghymru, i'w helpu i baratoi i ddeall ac ymateb i anghenion Plant y Lluoedd Arfog. Mae'n cynnwys gwybodaeth am adnoddau a chefnogaeth a wneir ar gael drwy raglen SSCE Cymru a Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyllid sydd ar gael i ysgolion yng Nghymru i gael mynediad i gefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog a chymuned y Lluoedd Arfog.



# SSCE Cymru

Rhaglen [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru] yw Cefnogi Plant Aelodau'r Lluoedd Arfog Mewn Addysg yng Nghymru (SSCE Cymru) a ariannwyd i ddechrau o Gronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) ond a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Cenhadaeth yr SSCE Cymru yw i gyflenwi y gefnogaeth addysg gorau i blant milwyr yng Nghymru.

## Genhadaeth

**Gwybodaeth a thystiolaeth**

Cydgysylltu gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth ar brofiadau plant sy'n gwasanaethu yn maes addysg i sicrhau bod dealltwriaeth dda o'u hanghenion.

**Gweithgareddau ac adnoddau**

Cydweithio ag aelodau rhwydwaith SSCE Cymru i gynnal gweithgareddau a chynhyrchu adnoddau a fydd yn helpu i gefnogi plant y lluoedd ar hyd eu haddysg.

**Polisi a Systemau Ategol**

Gweithio gyda sefydliadau i roi tystiolaeth ac effaith polisi sy'n berthnasol i gefnogi plant mewn addysg.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Ymchwil

Yn 2019/20 cynhaliodd SSCE Cymru nifer o weithgareddau i ddeall anghenion Plant y Lluoedd Arfog yn well a nodi'r strwythurau cefnogaeth mwyaf effeithiol.

Roedd barn ysgolion, rhieni/gofalwyr a Phlant y Lluoedd Arfog yn allweddol i gefnogi a chynllunio'r Pecyn Gwaith i Ysgolion SSCE Cymru newydd a Chanllaw Teulu y Lluoedd Arfog SSCE Cymru.

## Arolwg Ysgolion

Yn 2019, gwahoddodd SSCE Cymru bob ysgol yng Nghymru sydd â disgyblion sy'n blant i aelodau'r Lluoedd Arfog i gymryd rhan mewn arolwg.

Bu i 167 o ysgolion ledled Cymru gyfrannu manylion am eu profiadau o gefnogi plant milwyr mewn addysg drwy arolwg ar-lein.

Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

**Yr heriau sy'n wynebu plant y Lluoedd Arfog**

- Yr her fwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion cynradd oedd yr effaith emosiynol o fod ar wahân.
- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion uwchradd oedd gwneud ffrindiau a methu cynnwys cwricwlwm.

**Yr heriau sy'n wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog**

- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion cynradd oedd cefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion emosiynol a lles, a deall ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog.
- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion uwchradd yw cefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda bylchau yn eu haddysgu a chael gwybodaeth gan ysgolion blaenorol plentyn y Lluoedd Arfog.

**Cymorth Ysgol i Blant y Lluoedd Arfog**

- Y gefnogaeth orau a gynigir gan ysgolion i blant â rhieni yn y Lluoedd Arfog yw cefnogaeth fugeiliol wedi'i deilwra, drwy gael aelod o staff pwrpasol i gefnogi plant â rhieni yn y Lluoedd Arfog
- Roedd canran sylweddol o ysgolion wedi rhoi ymyriadau penodol ar waith i gefnogi plant y Lluoedd Arfog neu eu hatgyfeirio am gefnogaeth Iechyd Meddwl a Lles. Roedd nifer o'r ysgolion hyn gyda problemau â bodloni'r trothwy blaenoriaethu, a oedd yn anfantais i blant y Lluoedd Arfog.

I weld y canfyddiadau llawn o'r arolwg, ewch i Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)



*"Doeddwn i ddim yn deall yr iaith pan oeddwn i'n byw tramor."*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Gwrando ar blant y Lluoedd Arfog

Yn 2019/20, cynhaliodd SSCE Cymru nifer o grwpiau trafod mewn ysgolion yng Nghymru, i glywed gan blant y Lluoedd Arfog am eu profiadau o addysg yng Nghymru.

**Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:**

- Nifer o bynciau trafod wedi ysgogi ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol a negyddol.
- Un neges gyson drwy'r trafodaethau ynghylch symudedd, yw'r pwysigrwydd y gefnogaeth y mae teulu a ffrindiau yn ei roi i blant y Lluoedd Arfog, a'r safbwynt negyddol o'u gadael/ bod i ffwrdd ohonynt.
- Yn amlwg, mae'r mwyafrif o sylwadau a safbwyntiau gan blant y Lluoedd Arfog, ynghylch eu profiadau o anfon milwyr yn eithaf negyddol. Defnyddir ystod o fecanweithiau ymdopi gan blant y Lluoedd Arfog i ddelio â'u hemosiynau a'u teimladau yn ystod adleoli.
- Bu i drafodaethau ynghylch eu profiadau o fyw a chael eu haddysgu yng Nghymru ysgogi ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol a negyddol, ond roeddynt yn bennaf gadarnhaol.

Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu bwydo i mewn i brosiect Blwyddyn Llais y Plentyn y Lluoedd Arfog **Cynghrair SCiP**.

Mae'r adroddiad llawn ar **Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**.

## Arolwg Rhieni/Gofalwyr

Yn 2020, cynhaliodd SSCE Cymru arolwg gyda rhieni/gofalwyr plant y Lluoedd Argog. Roedd yn rhoi'r cyfle iddynt rannu eu profiadau am fyw yn / symud i Gymru, yr effaith mae eu ffordd o fyw yn ei gael ar addysg eu plant a'r gefnogaeth maent wedi ei chael gan ysgolion.

Roedd ymatebion i'r arolwg yn cynrychioli teuluoedd o'r tri gwasanaeth ac yn cynnwys personél rheolaidd, ailymuno a chyn filwyr y Lluoedd Arfog.

Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

**Profiadau teuluoedd milwyr**

- Roedd teuluoedd y Lluoedd Arfog yn teimlo fod gwneud ffrindiau a sicrwydd swydd y rhieni sy'n gwasanaethu wedi cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar blant y Lluoedd Arfog.
- Roedd delio gyda'r effaith emosiynol a gwahanu a setlo mewn ysgol newydd wedi cael yr effaith mwyaf negyddol ar blant y Lluoedd Arfog.

**Profiadau Addysgol**

- Roedd teuluoedd y Lluoedd Arfog yn teimlo fod cael dealltwriaeth o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog a nodi plant y Lluoedd Arfog yr heriau mwyaf sylweddol a wynebir gan ysgolion.
- Cyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol yr ysgol (e.e mae Facebook/Twitter) ac adnabod plant y Lluoedd Arfog yn ystod proses mynediad wedi bod y math mwyaf buddiol o gefnogaeth.
- Roedd cael polisi absenoldeb yn ystod y tymor ar gyfer plant y Lluoedd Arfog a chael personél y Lluoedd arfog ar gorff llywodraethu'r ysgol wedi eu nodi fel cefnogaeth a fyddai'n fuddiol iawn.


NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

**Byw yng Nghymru**

- Roedd teuluoedd y Lluoedd Arfog yn nodi mai'r amgylchedd corfforol (cefn gwlad, rhaeadrau, mynyddoedd, dinasoedd) a chwrdd â phobl newydd oedd yr hyn yr oeddent yn ei fwynhau fwyaf am fyw yng Nghymru.
- Ymweld â'r ysgol a'r ardal cyn symud (cwrdd ag athrawon, ffrindiau dosbarth, deall beth i'w ddisgwyl ar y diwrnod/wythnos gyntaf) wedi'i nodi fel y ffordd fwyaf effeithiol o helpu plant y Lluoedd Arfog sy'n setlo mewn ysgol a chymuned newydd.
- Gwybodaeth am addysg yng Nghymru a'r cwricwlwm, yn ogystal â chael unigolyn a nodwyd yn yr ysgol i gefnogi gyda'r symud, wedi eu nodi fel cefnogaeth fyddai fwyaf buddiol i helpu plant y Lluoedd Arfog i setlo mewn ysgol a chymuned newydd.

I weld y canfyddiadau llawn o'r arolwg, ewch i: **Arolwg rhiant/gofalwr Gwasanaeth SSCE Cymru (2020) - canfyddiadau**.

## Adnoddau

> ***"7.1 Pan ofynnwyd pa adnoddau fyddai'n fuddiol i'w helpu i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, dywedodd 54% o ysgolion yr hoffent dderbyn pecyn/canllaw gwybodaeth."***
>
> **Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

Mae gan wefan SSCE Cymru gyfres sylweddol o adnoddau i ysgolion a theuluoedd y Lluoedd Arfog, i helpu i godi ymwybyddiaeth am brofiadau plant y Lluoedd Arfog a chefnogi ysgolion i gynnwys arferion da. Mae'r adnoddau yn cael eu llywio gan ymchwil SSCE Cymru a'u datblygu mewn cydweithrediad ag aelodau o Rwydwaith SSCE Cymru ac ysgolion yng Nghymru.

Mae adnoddau sydd ar gael **www.SSCECymru.co.uk** yn cynnwys:

### Adnoddau SSCE Cymru

**Pecyn Adnoddau Ysgolion SSCE Cymru**
**Adnoddau SSCE Cymru**
**Enghreifftiau o arfer da**
**Plant Milwyr – canllawiau cyllid i ysgolion yng Nghymru**
**Ffilmiau o brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**SSCE Cymru am ddysgu Cymraeg**
**Cyfeiriadur Cefnogaeth**
**Newyddlenni SSCE Cymru.**

# Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog

Mae'r Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn cydweithio gyda Rheolwr Rhaglen SSCE Cymru i ddarparu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cynllun gwaith a ddatblygwyd ar y cyd ag aelodau Rhwydwaith SSCE Cymru; yn canolbwyntio ar gefnogi ysgolion i ddeall profiadau ac anghenion Plant y Lluoedd Arfog a sefydlu gweithgareddau fydd yn sicrhau systemau cefnogi cynaliadwy.

Mae manylion cyswllt yr RSLOs i'w gweld ar wefan **SSCE Cymru**.






## Cefnogaeth ysgol

Mae ffordd gall Swyddogion Cyswlly Ysgolion Rhanbarthol weithio gydag ysgolion a'u cefnogi yn cynnwys:

- Rhedeg/hwyluso grwpiau trafod gyda phlant y Lluoedd Arfog
- Datblygu dealltwriaeth o sut y gall ysgol ddefnyddio Pecyn Cymorth ac Offer SSCE Cymru
- Nodi arfer dda gellir rhannu ag ysgolion eraill yng Nghymru
- Cefnogi cyfleoedd i gydweithio
- Nodi camau gweithredu/gweithgareddau gall ysgol cyflawni i gefnogi plant a chymuned y Lluoedd Arfog
- Darparu sesiynau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o brofiadau plant y Lluoedd Arfog
- Darparu cyngor a chymorth i gael gafael ar gyllid a'i ddefnyddio i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

## Rheoli achos

Mae'r Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn gallu darparu cefnogaeth rheoli achos i ysgolion sydd ag un plentyn y Lluoedd Arfog neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog ag angen penodol sy'n ymwneud ag effaith ffordd o fyw y Lluoedd Arfog.

Er enghraifft, oherwydd symudedd teuluoedd y Lluoedd Arfog a'r effaith academaidd, cymdeithasol ac emosiynol y gall hynny ei gael ar blant y Lluoedd Arfog, gall materion godi sydd angen cefnogaeth a allai fod y tu hwnt i allu'r ysgol ac/ neu'r awdurdod lleol (ALl). Yn yr achosion hyn, bydd y Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn gweithio gyda'r ysgol a'r ALl i nodi cefnogaeth y gellid cael mynediad iddo i oresgyn rhwystr/au mae'r unigolyn neu grwpiau bychan o blant y Lluoedd yn eu wynebu.

Bydd yr RSLOs yn rheoli'r cymorth hwn – cydlynu ymyrraeth/ymyriadau, monitro'r cynnydd a mesur yr effaith gyda phob ysgol. Bydd gan RSLOs fynediad at gyllid ar gyfer rhai o'r ymyriadau hyn pan fydd angen. Yna bydd cymhorthydd rheoli achosion gan RSLOs ar gael er mwyn i ysgolion gael mynediad ar unrhyw adeg yn ystod o flwyddyn.

I gael mynediad i'r gefnogaeth hon dylai ysgolion gysylltu â'u **RSLO** yn uniongyrchol i drafod yr achos unigol.





# Cyllid

## Cyllid addysg gynhwysol yng Nghymru

Gan fod addysg wedi'i datganoli yng Nghymru, mae yna ddull arall ar gyfer cyllid grant sy'n rhoi’r gorau i dargedu grwpiau penodol ac yn ceisio sicrhau bod pob grant yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddysgwyr, gan gynnwys plant milwyr. Mae cyllid yn ei le i gefnogi pob dysgwr i sicrhau nad ydynt dan anfantais.

## Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog

Mae’r Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog sydd ar gael yn Lloegr yn dyfarnu £310 am bob plentyn milwr er mwyn helpu i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol yn ystod cyfnodau pan mae’r rhiant oddi cartref yn gwasanaethu yn y fyddin ac i leihau’r anfanteision a all fod yn wynebu’r plant.

Nid oes yna Bremiwm Disgybl y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna lawer o gefnogaeth y gall ysgolion ac awdurdodau lleol gael mynediad iddynt i helpu plant y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys pecynnau ac adnoddau SSCE Cymru, cefnogaeth gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i blant y Lluoedd Arfog, Cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ac ystod o gronfeydd grant eraill.

## Cyllid ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru

*“Mae ysgolion yn y pedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg) 18% yn fwy tebyg o gael mynediad i gyllid i gefnogi plant milwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â’u hymwybyddiaeth well o anghenion plant milwyr.”*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*“2.2 26% o deuluoedd y Lluoedd Arfog wedi nodi fod gan ysgolion fynediad i gyllid ychwanegol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn/plant).”*

Arolwg rhiant/gofalwr Gwasanaeth SSCE Cymru (2020) canfyddiadau

Mae ysgolion ledled Cymru’n bod yn rhagweithiol iawn ac yn gwneud gwaith gwych i sicrhau nad yw plant milwyr dan anfantais yn sgil bod yn rhan o un o deuluoedd y Lluoedd Arfog. Ewch i wefan SSCE Cymru i weld astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion da.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gael gan Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog ac Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog.

Am fwy o wybodaeth ar ffrydiau arian y gall ysgolion ac awdurdodau lleol gael mynediad i gefnogi plant y Lluoedd Arfog cliciwch yma.





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Canllaw Cyllido

*"7.1 Pan ofynnwyd pa adnoddau fyddai'n fuddiol i'w helpu i gefnogi plant Milwyr, dywedodd 58% o ysgolion yr hoffan nhw dderbyn canllawiau ar gyllid."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Weithiau, mae angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gael mynediad at gyllid ychwanegol er mwyn parhau i gefnogi plant milwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol. Roedd SSCE Cymru yn cydnabod nad yw bob amser yn hawdd darganfod pa gyllid sydd ar gael, pa grantiau sydd fwyaf perthnasol i brosiect a sut yw'r ffordd orau i fynd ati i lenwi'r ffurflenni cais.

Yn 2019 creodd grŵp o fudd-ddeiliaid SSCE Cymru ddogfen er mwyn darparu canllaw i ysgolion ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar y ffrydiau grant sydd ar gael, ynghyd â chyngor ar lenwi'r ffurflenni cais. Daw'r cyngor hwn gan aelodau o'r paneli cyllid, yn ogystal ag ysgolion ac awdurdodau lleol sydd wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am y grantiau.

Am fwy o wybodaeth am y canllawiau, cliciwch **yma**.





SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Cymorth ac Adnoddau

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

**Dilynwch ni ar Twitter**
**@SSCECymru**



## Diolch i'r sefydliadau hynny a roddodd ganiatâd i ddefnyddio eu deunyddiau

**Nid yw SSCE Cymru yn gwneud unrhyw sylwadau ynghylch gwefannau a gwybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon. Cyfeiriwch at Hysbysiadau Preifatrwydd sefydliadau a gyfeirir at i gael gwybodaeth pellach.**

**Hoffem gydnabod ffynhonnell rhai o'r ffotograffau gan Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges a gwefan delweddau amddiffyn yr MOD a gallwch gael gafael ar y drwydded Llywodraeth agored yma. Gall rhai delweddau gynnwys gwybodaeth o'r sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan y drwydded Llywodraeth agored v 3.0.**

### Cyfeiriadau delweddau

Tudalen 1
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011
Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

Tudalen 9
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018
40 Commando Royal Marines Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

Tudalen 13
Homecoming Scotland. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2013

Tudalen 15
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

Tudalen 16
AS-90. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

Tudalen 19
RN Commander welcome home. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016
HMS Dragon. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011
Trooping of the colour rehearsal. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

Tudalen 20
Chinooks. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016
HMS Queen Elizabeth. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

Tudalen 22
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

Tudalen 24
Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

Tudalen 25
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

Tudalen 27
HMS Montrose. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2010

Tudalen 42
RAF 100 Youth Programme. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2017

Tudalen 49
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

Tudalen 56
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

Tudalen 59
40 Commando Royal Marines Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

Tudalen 62
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

Tudalen 66
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

Tudalen 67
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



**SSCE Cymru**
**Canllaw i Deuluoedd Gwasanaeth y Lluoedd Arfog**